



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46814

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Amgylchedd Bwyd Iach

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Amgylchedd
Bwyd Iach

Ionawr 2023

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriadau Amgylchedd Bwyd Iach

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: PwysaulachCymrulach@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

[Linc i'r dogfennau ymgynghori](#)

Cynnwys

Cynnwys	3
Geirfa... ..	4
Crynodeb Gweithredol	5
1.Cyflwyniad	10
Cefndir	10
Dull yr Ymgynghoriad.....	10
Methodoleg	11
Strwythur yr Adroddiad.....	12
2.Amgylchedd Bwyd Iach:Ymgynghoriad Llawn Cwestiynau 1-27	13
Thema 1: Basgedi Siopa Iachach	14
Thema 2: Bwyta'n Iachach Oddi Allan i'r Cartref.....	25
Thema 3: Amgylcheddau Bwyd Lleol Iachach	43
Mesurau posibl eraill ac effeithiau ehangach	46
Cymorth Busnes ac Effaith.....	50
3.Amgylchedd Bwyd Iach:Ymgynghoriad Hawdd Ei Ddeall Cwestiynau 1-18	53
Thema 1:Basgedi Siopa Iachach	53
Thema 2: Bwyta'n Iachach Oddi Allan i'r Cartref.....	60
Thema 3: Amgylcheddau Bwyd Lleol Iachach	69
Atodiad A: Cynhyrchion posibl sy'n cael eu cwmpasu gan gynigion 1 a 2	71

Geirfa

Acronym	Diffiniad
HFSS	Uchel mewn Braster, Siwgr a Halen

Crynodeb Gweithredol


- i. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater cynyddol o ordewdra yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio cyflwyno deddfwriaeth sy'n cryfhau ac yn cefnogi amgylchedd bwyd mwy iach i'r defnyddiwr. Fel rhan o'r broses hon, lansiwyd ymgynghoriad ar 9 Mehefin 2022, yn gofyn am farn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid, ac fe gaeodd ar 1 Medi.
- ii. Derbyniwyd cyfanswm o 422 o ymatebion i'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach. Cafodd ymatebion naill ai eu cyflwyno drwy'r ffurflenni ymgynghori ar-lein llawn neu hawdd eu deall neu eu hanfon drwy e-bost. Casglwyd safbwyntiau rhanddeiliaid a'r cyhoedd hefyd drwy weithdai wedi'u hwyluso gan ymgynghorwyr ymchwil annibynnol. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad ar-lein wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Mae canfyddiadau'r gweithdai wedi'u cynnwys o fewn 'Amgylchedd Bwyd Iach - Ymgysylltu a Dadansoddi', a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.
- iii. Mae'r paragraffau a'r ffeithluniau canlynol yn crynhoi'r ymateb i'r prif gynigion o fewn yr ymgynghoriad. Y rhain yw:
 - cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion braster, siwgr neu halen uchel (HFSS)
 - cyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau sy'n annog prynu
 - labelu calorïau gorfodol yn y man dewis yn y sector oddi allan i'r cartref
 - gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: rhoi'r gorau i ail-lenwi am ddim
 - gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: cyfyngu ar faint dognau
 - cyfyngu ar siopau tecawê bwyd poeth – gan ystyried terfynau dirlawnder, pwerau trwyddedu ac amgylcheddau presennol o amgylch ysgolion a cholegau.
- iv. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn p'un a yw'r ymatebwyr yn cytuno, yn anghytuno neu'n ansicr am y cynigion. Nid yw canran yr ymatebwyr sy'n ateb eu bod yn ansicr neu'n gadael y cwestiwn yn wag wedi'i gynnwys o fewn y crynodeb gweithredol ond maen nhw wedi'u cynnwys o fewn y dadansoddiad mwy manwl cwestiwn wrth gwestiwn.
- v. Roedd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr o blaid cyfyngu ar hyrwyddiadau sy'n seiliedig ar werth o gynhyrchion HFSS yn y fersiynau llawn a hawdd eu

darllen o'r ymgynghoriad (49 y cant). Mae hon yn ganran uwch na'r rhai sy'n anghytuno (37 y cant ar gyfer yr ymgynghoriad llawn a 44 y cant ar gyfer y fersiwn hawdd ei deall). Roedd y rhai oedd yn cytuno gyda'r cynnig yn dadlau y byddai'n lleihau gor-brynu cynnyrch HFSS, gan arwain at well iechyd y boblogaeth. Ymysg y pryderon roedd effaith y byddai deddfwriaeth o'r fath yn ei gael ar ryddid dewis a gwariant bwyd yng nghyd-destun costau byw cynyddol.


- vi. Cafodd y cynnig o gyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau sy'n annog prynu ei fodloni gyda lefel sylweddol o gefnogaeth gan ymatebwyr (55 y cant yn yr ymgynghoriad llawn a 66 y cant yn yr ymgynghoriad hawdd ei ddeall). Roedd yr ymatebwyr o blaid yn credu y byddai'r cynnig yn annog pobl i beidio â phrynu yn fyrbwyll. Roedd ymateb busnes i gyfyngu ar hyrwyddo HFSS yn tueddu i bwysleisio gwerth cyd-fynd â rheoliadau yn Lloegr.
- vii. Roedd y mater ynghylch a ddylai labelu calorïau fod yn orfodol ar y pwynt dewis ar gyfer lleoliadau yn y sector oddi allan i'r cartref yn cael ei wrthwynebu i raddau helaeth gan y rhai a oedd yn ymwneud â'r ymgynghoriad (52 y cant yn gwrthwynebu yn y fersiynau llawn a hawdd eu deall o gymharu â 31 y cant a 41 y cant o blaid yn y drefn honno), gyda phryderon yn cael eu codi am yr effaith y byddai deddfwriaeth o'r fath yn ei gael ar bobl ag anhwylderau bwyta a phlant.
- viii. Roedd yr ymatebwyr yn bennaf o blaid cyfyngu ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim (51 y cant yn yr ymgynghoriad llawn a 60 y cant yn yr ymgynghoriad hawdd ei ddeall). Roedd y rhai o blaid yn cyfeirio at fuddion iechyd fel gwell iechyd deintyddol a bwyta llai o galorïau.
- ix. Roedd yr ymatebwyr hefyd o blaid cyfyngu ar feintiau dogn mwy o ran diodydd meddal siwgrog, er bod cymeradwyaeth ychydig yn is na chyfyngu ail-lenwi am ddim (46 y cant yn yr ymgynghoriad llawn a 50 y cant yn yr ymgynghoriad hawdd ei ddeall). Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn y cynigion yn dadlau bod dogneau mwy fel arfer yn well gwerth ac y gellir eu rhannu.
- x. Pan ofynnwyd a ddylai fod adolygiad ar gyfyngu siopau tecawê poeth, roedd yr ymatebwyr o blaid gan amlaf (44 y cant yn yr ymgynghoriad hyd llawn a

57 y cant yn yr ymgynghoriad hawdd ei ddeall). Roedd y rhai oedd o blaid yn credu bod llawer gormod o opsiynau afiach mewn rhai ardaloedd, ac mae pobl, gan gynnwys plant ysgol, yn aml yn bwyta beth bynnag sydd ar gael fwyaf rhwydd.

Ffigur 1 Ymgynghoriadau i'r prif gynigion o fewn yr ymgynghoriad hyd llawn



Ffigur 2 Ymgynghoriadau i'r prif gynigion o fewn yr ymgynghoriad hyd llawn



1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Mae sawl cyflwr iechyd difrifol, hirdymor sy'n gysylltiedig â phwysau gormodol, gan gynnwys diabetes, clefyd y galon a chanser, yn ogystal ag effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl. Gyda thua thraean o blant oed derbyn a 60 y cant o oedolion yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel pobl dros eu pwysau neu ordew, mae wynebu gordewdra yn her iechyd cyhoeddus sylweddol. Mae gordewdra yn arbennig o gyffredin mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi tanlinellu ymhellach y risgiau iechyd cysylltiedig â deiet gwael ac wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes.
- 1.2 Mae strategaeth [Pwysau Iach: Cymru Iach](#), a gyhoeddwyd yn 2019, yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor i Gymru er mwyn lleihau ac atal gordewdra. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad erbyn 2030 i greu "amgylcheddau bwyd lle mae bwyd a diod iachach ar gael yn eang, yn apelgar ac yn fforddiadwy, gan wneud y dewis iachach yn ddewis hawdd." Nodwyd ymrwymiad i ymgynghori ar yr amgylchedd bwyd yn y [Cynllun Cyflawni 2022-24](#).
- 1.3 Hoffai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i adeiladu ar gamau gwirfoddol blaenorol, gan ddarparu eglurder a chysondeb ar draws y diwydiant bwyd, a chefnogi amgylchedd bwyd iachach i'r defnyddiwr.

Dull yr Ymgynghoriad

- 1.4 Mae Ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach yn cynnig camau, gan gynnwys deddfwriaeth, i sicrhau bod cyflawni deiet iach a chytbwys yn haws. Yn benodol, sut y gallwn symud cydbwysedd hyrwyddo a marchnata tuag at ddewisiadau iachach (Basgedi Siopa Iachach), sut y gallwn wella'r wybodaeth sydd ar gael i ni wrth fwyta oddi allan o'r cartref i gefnogi dewisiadau iachach (Bwyta allan o'r Cartref yn Iachach) a sut y gallwn symud y cydbwysedd, fel y gall ein taith ddyddiol drwy'r lleoedd rydym yn byw gefnogi dewisiadau iachach yn well (Amgylcheddau Bwyd Lleol).
- 1.5 Aeth yr ymgynghoriad ar y cynnig i wella yr Amgylchedd Bwyd Lleol yng Nghymru yn fyw ar 9 Mehefin 2022 gan geisio barn gan gynrychiolwyr y diwydiant, cyrff anllywodraethol a'r cyhoedd ehangach a chaeodd ar 1 Medi.

Roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle hanfodol i'r holl randdeiliaid ddarparu mewnbwn cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau pellach.

- 1.6 Cyn lansio'r ymgynghoriad, ar y cyd â Working Word a Cazbah, comisiynwyd Miller Research i gynnal dadansoddiad annibynnol o'r ymgynghoriad, oedd yn cynnwys ymgynghoriadau gweithdai gyda grwpiau penodol o'r cyhoedd, a'r ymatebion i ymgynghoriad ar-lein Llywodraeth Cymru.

Methodoleg

- 1.7 Derbyniwyd cyfanswm o 422 o ymatebion i'r fersiynau llawn a hawdd ei ddeall o'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach.
- 1.8 Ar gyfer yr ymgynghoriad llawn, cafwyd 224 o ymatebion yn defnyddio'r ffurflen ymgynghori ar-lein.
- 1.9 Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, cyflwynwyd 57 o ymatebion ysgrifenedig pellach i flwch post a rennir Llywodraeth Cymru gan nifer o sefydliadau, grwpiau ac unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig. Pan fo'r ymatebion hyn wedi cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad, mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y tablau meintiol. Mae ymatebion ansoddol wedi'u hintegreiddio i'r sylwebaeth naratif.
- 1.10 Mae cyfanswm o 267 o ymatebion unigryw wedi'u dadansoddi yn erbyn y fframwaith cwestiynau yn yr ymgynghoriad llawn.
- 1.11 Cafwyd 143 o ymatebion i'r ymgynghoriad hawdd ei ddeall ar-lein.
- 1.12 Roedd dyluniad yr holiadur yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig, gan ganiatáu gofod i ymatebwyr roi adborth manwl, a chodi unrhyw gwestiynau neu bryderon perthnasol.
- 1.13 Daeth y rhan fwyaf o ymatebion arolwg gan unigolion. Roedd 178 o unigolion wedi dewis ymateb i'r ymgynghoriad llawn a 122 o unigolion wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad hawdd i'w ddeall.
- 1.14 Dewisodd y rhan fwyaf o sefydliadau a busnesau ymateb i'r ymgynghoriad llawn, er bod 21 o ymatebion gan sefydliadau neu fusnesau oedd yn ymateb i'r ymgynghoriadau hawdd eu deall. Roedd y rhai oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad hawdd i'w ddarllen yn cynnwys manwerthwyr bwyd annibynnol a busnesau bach eraill, yn ogystal â chyrff ieuchyd ac addysg.

- 1.15 Roedd gan y mwyafrif o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad llawn gysylltiadau ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd neu grwpiau polisi bwyd. Ymatebodd nifer fach o sefydliadau diwydiant bwyd a diod hefyd.
- 1.16 Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau a ymatebodd i'r ymgynghoriad llawn yn fawr (250 o weithwyr neu fwy), gan gynnwys llawer o enwau poblogaidd.
- 1.17 Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi yn annibynnol a'u crynhoi i ffurfio sail i'r adroddiad hwn.
- 1.18 Derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein mewn ffeil excel, lle cafodd ymatebion eu 'glanhau' a'u coladu i gronfa ddata ganolog. Yn dilyn hynny, cafodd y data ei godio, gydag ymatebion testun rhydd o fewn cwestiynau'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi'n thematig i fynd i'r afael â themâu craidd ac ymatebion rhanddeiliaid allweddol. Defnyddiwyd tablau colyn a dadansoddiad graffigol i fesur, delweddu a chrynhoi data o gwestiynau 'ie / na' caeedig.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.19 Mae'r adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad o ymatebion i bob cwestiwn a nodir yn y fersiynau llawn a hawdd eu deall o'r ymgynghoriad amgylchedd bwyd iach. Ystyrir yr ymatebion llawn i'r ymgynghoriad o fewn pennod 2, gyda'r ymatebion i'r ymgynghoriad hawdd ei ddeall yn cael eu dadansoddi o fewn pennod 3. Mae'r ddau ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar wahân wrth i rai cwestiynau gael eu hepgor o fewn yr ymgynghoriad hawdd i'w ddarllen, ac mae gwahaniaethau hefyd yn y ffordd mae cwestiynau'n cael eu geirio. Ar gyfer y ddau fersiwn o'r ymgynghoriad, mae crynodeb meintiol o'r data ar gyfer cwestiynau unigol yn cael ei grynhoi yn y paragraff agoriadol. Yn dilyn hyn, mae dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan unigolion, sefydliadau iechyd cyhoeddus, sefydliadau a busnesau, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd trwy flwch post a rennir Llywodraeth Cymru.

2. Amgylchedd Bwyd iach: Ymgynghoriad Llawn Cwestiynau 1-27

- 2.1 Cafodd 267 o ymatebion eu dadansoddi ar gyfer yr ymgynghoriad amgylchedd bwyd iach llawn. Mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn wedi'i amlinellu yn nhabl 1.

Tabl 1 Crynodeb o'r ymatebwyr yn yr ymgynghoriad

Yn ymateb ar ran:	Nifer
Unigolyn	178
Sefydliad	43
Busnes	36
Arall neu anhysbys	10
Cyfanswm	267

- 2.2 Ymhlith y sefydliadau a ymatebodd roedd awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau diwydiant bwyd a diod. Roedd y rhan fwyaf o ymatebion busnes gan gyflogwyr mawr. Mae dadansoddiad yn ôl maint y busnes yn cael ei grynhoi yn nhabl 2.

Tabl 2 Crynodeb o faint y busnesau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Maint y Busnes	Nifer
Mawr (250 o weithwyr neu fwy)	21
Bach (10 - 49 o weithwyr)	8
Micro (0 - 9 o weithwyr)	5
Anhysbys	2
Cyfanswm	36

- 2.3 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ar gyfer pob cwestiwn o'r arolwg amgylchedd bwyd iach llawn. Mae ymatebion wedi'u dadansoddi i feithrin synnwyr o deimlad cyffredinol, themâu allweddol, a meysydd o bryder a meysydd dadleuol.

Thema 1: Basgedi Siopa Iachach

Cynnig 1 - Cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion HFSS

Tabl 3 Ymatebion i C1

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	11	85	28	7	49
Na	18	75	4	1	37
Ddim yn Siŵr	5	13	2		7
Gwag	2	5	9	2	7
Cyfanswm	36	178	43	10	100

- 2.4 Mae Tabl 3 yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiwn "A ddylen ni gyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu ar y mathau canlynol o hyrwyddiadau ar gyfer cynhyrchion halen, siwgr neu fraster uchel (HFSS): gostyngiadau dros dro mewn prisiau, cynigion aml-brynu, cynigion cyfaint Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i hyn, gyda 49 y cant o'r ymatebwyr yn dweud ie i'r deddfwriaeth arfaethedig. Fodd bynnag, roedd lefel sylweddol o wrthwynebiad hefyd, gyda 37 y cant o'r ymatebwyr yn ateb 'na'. Roedd cefnogaeth glir yn gyffredinol gan sefydliadau i'r cynnig, gyda mwyafrif yr unigolion hefyd o blaid. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r busnesau yn erbyn cyflwyno'r deddfwriaeth arfaethedig.
- 2.5 Roedd llawer o unigolion oedd yn cefnogi'r deddfwriaeth yn dadlau bod y cynhyrchion HFSS hyn yn gysylltiedig â gordewdra ac iechyd gwael. Felly, fe wnaethon nhw awgrymu y gallai hyrwyddo'r cynhyrchion hyn gael effaith niweidiol ar iechyd pobl a chynyddu cyfraddau gordewdra.
- 2.6 Fodd bynnag, roedd rhai unigolion yn erbyn y cyfyngiadau arfaethedig ac yn teimlo ei fod yn torri ar ryddid dewis pobl. Cyfeiriwyd hefyd at y cynnydd presennol mewn costau byw fel rheswm i beidio â chyflwyno'r deddfwriaeth hon gan fod llawer o deuluoedd incwm isel, a allai fod yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, yn dibynnu ar hyrwyddiadau o'r fath i fwydo nhw eu hunain a'u teuluoedd. Roedd llawer o'r ymatebion hefyd yn amlygu y dylid rhoi mwy o

bwyslais ar addysg am fwyta'n iach yn hytrach na gosod cyfyngiadau ar rai bwydydd.

- 2.7 Roedd sefydliadau a oedd yn gefnogol i'r cynnig yn dadlau y byddai yn cefnogi pobl i fwyta llai o gynhyrchion HFSS ac felly'n arwain at well iechyd cyffredinol.
- 2.8 Tynnodd sawl sefydliad ac ychydig o fusnesau sylw at y ffaith bod gostyngiadau mewn prisiau dros dro, aml-brynu a chynigion cyfaint yn gwthio prynu tuag at gynnyrch llai iach. Maen nhw'n cyfrannu at amgylchedd lle mae dewis yr opsiwn iach yn anoddach. Dyfynnodd llawer o'r ymatebwyr ymchwil perthnasol a oedd yn cyfeirio at y ganran uchel o fwyd a diod a brynwyd ar hyrwyddiadau yn siopau'r DU, ac effaith hyrwyddiadau HFSS ar ddeiet cyffredinol.
- 2.9 Amlygwyd hefyd gan sefydliadau sy'n cefnogi'r mesur nad yw hyrwyddiadau prisiau bob amser yn arbed arian i gwsmeriaid ac yn hytrach eu bod nhw'n fecanweithiau sy'n cael eu defnyddio i sbarduno gwerthiant. Dangosodd tystiolaeth a ddyfynnwyd fod hyrwyddiadau yn cymell prynu byrbwyll, gan achosi i bobl ar gyfartaledd wario un rhan o bump yn fwy ar fwyd a diod. Mae'r bwyd a'r diod ychwanegol hwn yn tueddu i gael ei fwyta, yn hytrach na'i stocio, gan arwain at fwy o gymeriant calorïau.
- 2.10 Nododd sefydliadau y dylid bod yn ofalus i sicrhau nad oedd y cynnig yn gwaethygu'r argyfwng costau byw presennol. Pwysleisiwyd hefyd bod gan rai babanod a phlant ifanc anghenion maethol penodol sydd yn aml angen cynnwys braster uwch neu gynnwys protein is. Dywedodd sefydliadau hefyd na fyddai'r ddeddfwriaeth ar ei phen ei hun yn cael fawr o effaith ar lefelau gordewdra, ac roedd angen camau eraill hefyd i leihau lefelau gordewdra.
- 2.11 Pwysleisiodd llawer o fusnesau a sefydliadau y dylai'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn Lloegr er mwyn osgoi cymhlethdod diangen. I rai roedd hyn yn golygu y dylai cynigion cyfaint a chynigion aml-brynu gyfyngu ar HFSS ond dylai gostyngiadau mewn prisiau dros dro fod allan o gwmpas (Gan gadw'n unol â chyfyngiadau HFSS arfaethedig Lloegr). Rhoddwyd y gost a'r cymhlethdod cynyddol i fusnesau sy'n gweithredu ledled y DU fel y rheswm dros beidio â bod yn wahanol i

Loegr. Amlygwyd y cymhlethdod gan fusnesau ar-lein yn unig a oedd yn dadlau nad oes ganddynt apiau penodol i'r wlad sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth pob cenedl. Fe wnaethant awgrymu y byddai creu ap arall i Gymru yn gostus a dryslyd i gwsmeriaid.

- 2.12 Roedd pryderon gan rai manwerthwyr am yr effeithiau ar gystadleuaeth, gan y byddai cystadleuaeth prisiau'n cael ei dileu pe bai cynigion hyrwyddo yn cael eu gwahardd. Roedd un gwneuthurwr o'r farn bod y cynnig y tu allan i ganllawiau cyhoeddedig yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd heb asesiad o effeithiau cystadleuaeth.
- 2.13 Dadleuodd rhai busnesau y gall hyrwyddiadau arwain at ymddygiad prynu swmp sy'n arbed costau, ac eitemau'n cael eu storio i'w bwyta yn y dyfodol, os oes gan yr eitemau hyn fywyd silff hir. Cyfeiriwyd hefyd at wastraff bwyd fel mater gan fod cynigion hyrwyddo yn aml yn cael eu defnyddio fel modd i gael gwared ar stoc sy'n agos at ei ddyddiad defnyddio. Pe bai'r cyfyngiadau'n dod i rym, roedd pryder y byddai cynnydd mewn gwastraff bwyd. Amlygwyd hefyd y byddai'r deddfwriaeth arfaethedig yn lleihau dewis defnyddwyr.

Cynnig 2 - Cyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau sy'n annog prynu

Tabl 4 Ymatebion i C2

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	9	105	28	6	55
Na	19	55	6	1	30
Ddim yn Siŵr	6	12	2		7
Gwag	2	6	9	3	8
Cyfanswm	36	178	43	10	100

- 2.14 Mae tabl 4 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i'r cwestiwn 'A ddylen ni gyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS yn yr ardaloedd manwerthu canlynol: mynedfa siop, wrth y til, pen eiliau, unedau arddangos annibynnol, unrhyw leoliadau eraill?'. Roedd lefel uwch o gefnogaeth gan

ymatebwyr ar gyfer deddfwriaeth arfaethedig sy'n cyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS (55 y cant), o'i gymharu â deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion HFSS (49 y cant).

- 2.15 Roedd llawer o unigolion o blaid y ddeddfwriaeth gan eu bod yn credu y byddai hyn yn annog pobl i beidio â phrynu yn fyrbwyll a phobl yn prynu cynhyrchion diangen. Nododd rhai ymatebion na ddylai'r cynhyrchion fod mewn mannau lle maen nhw'n weladwy i blant iau gan fod hyn yn annog plant i ofyn am gynnyrch HFSS.
- 2.16 Dywedodd unigolion oedd yn erbyn y ddeddfwriaeth mai mater i'r unigolyn oedd penderfynu beth roedden nhw'n ei brynu. Roedd pryder hefyd y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar fusnesau ac yn cael effaith negyddol ar werthiant.
- 2.17 Roedd sefydliadau o blaid deddfwriaeth yn dadlau bod hyn yn ffordd gadarnhaol o leihau pryniannau byrbwyll o fwydydd HFSS, gan fod pobl yn llai tebygol o brynu cynhyrchion sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau llai amlwg. Yr ardaloedd manwerthu a awgrymir yw'r ardaloedd sydd â'r nifer uchaf o ymwelwyr ac felly dylai gael yr effaith uchaf. Fe wnaeth un sefydliad argymhell cynnwys ardaloedd fel eiliau teganau/cylchgrawn a chorlannau chwarae sydd weithiau'n ymddangos mewn siopau mwy, gan fod y rhain yn ardaloedd mae defnyddwyr iau yn cael eu denu atynt.
- 2.18 Dadleuodd y rhan fwyaf o fusnesau a rhai sefydliadau yn erbyn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Cafodd pryder ei fynegi y byddai'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn ymestyn ymhellach nag yn Lloegr ac felly yn creu mwy o heriau i fusnesau. Er enghraifft, cynnwys unedau sefydlog annibynnol sydd allan o gwmpas y ddeddfwriaeth yn Lloegr (oni bai mewn ardaloedd penodedig). Codwyd pryderon y bydd heriau gweithredol penodol, yn ogystal â llai o werthiant, ar gyfer cynhyrchion tymhorol galw uchel, sy'n aml yn cael eu harddangos mewn unedau sefydlog annibynnol ac maen nhw angen cael eu ailstocio aml. Roedd pryder hefyd ynghylch effeithiau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y gallai fod yn gostus i'w gweithredu, yn enwedig i fusnesau llai. Roedd yna ddadleuon bod lleoliad amlwg ar gyfer

cynigion hyrwyddo - gan gynnwys cynnyrch HFSS - yn caniatáu i deuluoedd ar gyllideb ddod o hyd i'r cynhyrchion hyn yn gyflym.

Categoreiddio cyfyngiadau bwyd gyda chynigion 1 a 2

Tabl 5 Ymatebion i C3

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Opsiwn A	19	33	13	1	25
Opsiwn B	4	57	16	3	30
Arall	12	83	16	5	43
Gwag	1	5		1	3
Cyfanswm	36	178	45	10	100

- 2.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Sut ddylen ni benderfynu pa gategoriâu o fwyd ddylai ddod o dan gyfyngiadau cynnig 1 a 2: Opsiwn A - Cynhyrchion yn uchel mewn braster, siwgr neu halen sydd o'r pryder mwyaf i ordewdra plant, neu Opsiwn B- Pob cynnyrch yn uchel mewn braster, siwgr neu halen'. Ni wnaeth llawer o'r ymatebwyr ddewis y rhestr o fwydydd o dan opsiwn A neu opsiwn B yn bendant, naill ai yn awgrymu nad oedd angen yr un opsiwn (nid oeddent yn cytuno â'r cyfyngiadau arfaethedig) nac yn awgrymu categoreiddio amgen. O'r ymatebwyr a wnaeth ddewis opsiwn A neu B, roedd ychydig o ffafriaeth i opsiwn B. Mae'r rhestr o fwydydd sydd wedi'u cynnwys o dan opsiwn A ac opsiwn B wedi'i gynnwys yn Atodiad A
- 2.20 Roedd unigolion a bleidleisiodd dros opsiwn A yn cefnogi'r syniad gan eu bod yn credu bod targedu cynhyrchion uchel mewn braster, siwgr neu halen yn ffordd ymarferol o fynd i'r afael â gordewdra plant tra hefyd yn addysgu plant ac oedolion ar arferion bwyta'n iachach. Roedd ymatebion eraill yn dadlau bod opsiwn A wedi gadael mwy o ddewis ar gyfer dewis a chyfrwng unigol.
- 2.21 Awgrymodd unigolion a ddewisodd opsiwn B ei bod yn bwysig cofio nad plant yn unig sy'n cael eu heffeithio gan ordewdra, ond hefyd. Felly, awgrymwyd ei bod yn bwysig i oedolion gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig.

- 2.22 Roedd sefydliadau oedd yn dadlau mai opsiwn A oedd y dewis gorau yn rhesymu ei fod yn caniatáu targedu cynhyrchion yn benodol sy'n aml yn fwy apelgar i blant, heb arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol ar gynhyrchion teuluol hanfodol fel sawsiau coginio (fel sydd wedi'u cynnwys yn opsiwn B). Awgrymodd sefydliadau eraill mai dull graddol fyddai orau - gweithredu opsiwn A i ddechrau, gydag opsiwn B yn cael ei weithredu yn y dyfodol.
- 2.23 Roedd y sefydliadau a bleidleisiodd dros opsiwn B yn awgrymu bod angen dull cryf i fynd i'r afael â lefelau gordewdra yng Nghymru. Gan fod opsiwn B yn ymgorffori ystod ehangach o gynhyrchion, cafodd ei ddisgrifio fel un oedd â'r potensial i effeithio ar gynulleidfa ehangach sy'n cynnwys oedolion yn ogystal â phlant i fynd i'r afael â lefelau gordewdra ar draws y boblogaeth.
- 2.24 Pwysleisiodd busnesau y dylai unrhyw reoliadau a ddaw i mewn gan Lywodraeth Cymru gyd-fynd â deddfwriaeth Lloegr, sy'n cynnig cyfyngiadau'n seiliedig ar opsiwn A. Gofynnodd busnesau hefyd am ddefnyddio Model Proffilio Maethol 2004/5 ar gyfer y ddeddfwriaeth (yn unol â Lloegr), yn hytrach na'r Model Proffilio Maethol wedi'i ddiweddarau yr ymgynghorwyd arno yn 2018. Roedd rhai busnesau'n poeni y byddai opsiwn B yn creu cymhlethdod sylweddol i fusnesau yng Nghymru gan y byddai'n rhaid iddyn nhw lywio a gweithredu unrhyw wahaniaethau a allai fod rhwng deddfwriaeth Cymru a Lloegr.
- 2.25 Roedd ymatebion a oedd yn dadlau na ddylid defnyddio'r naill opsiwn na'r llall yn rhesymu ei bod hi'n bwysig peidio pardduo rhai bwydydd ac y dylai fod dealltwriaeth bod pob grŵp bwyd yn bwysig ar gyfer creu deiet iach a chytbwys.
- 2.26 Roedd ymatebion oedd yn dadlau dros gategoreiddio gwahanol yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer: categorieiddio yn seiliedig ar gynnwys siwgr, cynhyrchion wedi'u prosesu'n uwch, a chynhyrchion sy'n cynnwys canran uchel o lwfans dyddiol a argymhellir ar gyfer braster, braster dirlawn, siwgr neu halen. Roedd cynhyrchion penodol hefyd yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn annheg ar y rhestrau fel grawnfwydydd brecwast, iogwrt, sudd ffrwythau a chynhyrchion cig wedi'u prosesu. Yn ogystal, roedd

ychedig o gynhyrchion yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu hystyried, fel alcohol oherwydd ei gynnwys kalori uchel.

Cyfyngiadau cynnyrch a phrynu ar-lein

Tabl 6 Ymatebion i C4

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	18	103	26	6	57
Na	12	53	1		25
Ddim yn Siŵr	5	11	5	1	8
Gwag	1	10	12	2	9
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.27 Mae tabl 6 yn crynhoi ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai cyfyngiadau ar gyfer cynnig 1 - hyrwyddiadau gwerth a chynnig 2 - hyrwyddiadau lleoliad gwmpasu prynu ar-lein?' Roedd cefnogaeth sylweddol i gyfyngiadau gynnwys prynu ar-lein gyda 57 y cant o'r ymatebwyr yn ateb 'dylai', gyda 25 y cant yn teimlo na ddylai gynnwys prynu ar-lein.
- 2.28 Awgrymodd llawer o unigolion y dylai hyrwyddiadau gwerth a hyrwyddiadau lleoliad ymestyn i brynu ar-lein, gan ddadlau nad yw siopa ar-lein yn wahanol i fathau eraill o brynu ac mae hefyd yn dod yn fwyfwy poblogaidd. I lawer o deuluoedd prysur, siopa ar-lein yw'r norm. Amlygwyd hefyd y dylai deddfwriaeth fod yn gyson ar draws pob dull o siopa er mwyn iddo gael effaith, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud ag iechyd a lles pobl.
- 2.29 Roedd llawer o sefydliadau yn gefnogol i'r cynigion gwmpasu prynu ar-lein gan mai siopa bwyd ar-lein yw'r maes sy'n tyfu fwyaf ar gyfer manwerthu ar hyn o bryd, felly dylai'r un cyfyngiadau fod yn berthnasol. Roedd rhai hefyd yn dadlau, os nad yw siopa ar-lein yn cael ei gynnwys yna mae'n creu man gwan annheg, gan wneud y deddfwriaeth yn aneffeithiol. Ar ben hynny, oherwydd natur y dirwedd ddigidol sy'n esblygu'n gyflym, bydd angen adolygu llwyfannau bwyd ar-lein yn amlach o ran arferion deietegol a chyfyngiadau angenrheidiol.

- 2.30 Roedd gan unigolion a sefydliadau a fynegodd bryder ynghylch cynnwys prynu ar-lein bryderon yn bennaf am y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei chyfanrwydd. Roedd y pryderon yn cynnwys cymryd dewisiadau pobl i ffwrdd oddi arnyn nhw a'i gwneud hi'n anodd i bobl fwydo eu teulu yn ystod argyfwng costau byw - adeg pan allai llawer o ddefnyddwyr gael eu gyrru i chwilio am gynigion arbennig.
- 2.31 Roedd rhai busnesau'n gefnogol i'r ddeddfwriaeth fod yn berthnasol hefyd i fanwerthwyr ar-lein gan ddadlau ei bod yn bwysig cael chwarae teg yn hytrach na chaniatáu i rai busnesau ddod o hyd i fannau gwan.
- 2.32 Pwysleisiodd busnesau y dylai'r ddeddfwriaeth gyd-fynd â pholisi Lloegr er mwyn osgoi heriau logistaidd, costau ychwanegol a dryswch i fusnesau. Gofynnwyd am eglurder pellach o ran pwy fyddai'n atebol pe bai cyfyngiadau'n cael eu torri ar blatfform ar-lein a oedd yn gwerthu cynhyrchion archfarchnad, ond oedd yn cael eu cynnal gan bartneriaid cyflenwi

Eithriadau ar gyfer cyfyngiadau hyrwyddo gwerth (cynnig 1)

Tabl 7 Ymatebion i C5

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	18	64	16	1	57
Na	8	77	8	3	25
Ddim yn Siŵr	4	23	3	1	8
Gwag	6	14	17	4	9
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.33 Pan ofynnwyd 'A ddylai'r eithriadau canlynol gael eu cymhwyso i gyfyngiadau hybu gwerth: busnesau micro a bach, gostyngiadau agos at ddyddiad defnyddio a chynhyrchion heb eu pecynnu ymlaen llaw gael eu heithrio o'r cyfyngiadau arfaethedig?', roedd cefnogaeth glir i'r eithriadau hyn, gyda 57 y cant o'r ymatebwyr yn ateb, 'ie' a 25 y cant yn dewis 'na'.

- 2.34 Roedd llawer o ymatebion unigol o blaid yr eithriadau ac yn dadlau bod busnesau bach yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd ac na ddylid eu llwytho gyda deddfwriaeth bellach. Nodwyd pwysigrwydd eithrio cynhyrchion sy'n agos at eu dyddiad defnyddio yn hanfodol i leihau gwastraff bwyd.
- 2.35 Roedd unigolion nad oedent o blaid yr eithriadau arfaethedig yn dadlau bod unrhyw eithriadau yn gwneud y polisi yn llai effeithiol ac yn creu amgylchedd bwyd anwastad yng Nghymru.
- 2.36 Roedd rhai sefydliadau o blaid yr eithriadau arfaethedig gan ddweud ei bod yn bwysig i gynhyrchion sy'n agos at eu dyddiad defnyddio (ac awgrymwyd hefyd y dyddiad "ar ei orau cyn") gael eu heithrio er mwyn mynd i'r afael â gwastraff bwyd. Cytunodd rhai hefyd gyda'r eithriadau arfaethedig gan eu bod yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn Lloegr.
- 2.37 Fodd bynnag, nid oedd sefydliadau eraill o blaid yr eithriadau gan eu bod yn dadlau y dylai pob busnes, cyn belled â'u bod nhw'n cael adnoddau amser a chefnogaeth ddigonol gan Lywodraeth Cymru, gydymffurfio â'r un rheoliadau i sicrhau bod y polisi yn effeithiol. O ran a ddylid eithrio busnesau bach, nodwyd y byddai peidio â'u heithrio yn creu mwy o chwarae teg ar draws y sector. Dadleuwyd bod siopau llai mewn ardaloedd gwledig yn rhan fawr o dirweddau siopa lleol a byddai'n anwybyddu rhan sylweddol o'r farchnad fwyd i'w heithrio nhw.
- 2.38 Yn gyffredinol, roedd busnesau o blaid yr eithriadau, gan ddadlau bod y cyfyngiadau HFSS yn effeithio'n anghymesur ar fusnesau llai. Roedd llawer o fusnesau o blaid eithriadau ar gynnyrch yn agos at eu dyddiad defnyddio. Pe na bai busnesau'n gallu rhoi cynhyrchion sy'n agos at eu dyddiad defnyddio ar gynnig hyrwyddo, ni fydden nhw'n gallu cyflawni eu nodau ehangach o leihau gwastraff bwyd a gwella eu polisi cynaliadwyedd. Roedd cefnogaeth hefyd i eithrio cynhyrchion heb eu pecynnu ymlaen llaw.
- 2.39 Roedd nifer o awgrymiadau pellach ar gyfer ychwanegiadau at y rhestr eithrio. Er enghraifft: gweithgynhyrchwyr lleol bach sy'n dibynnu ar hyrwyddo cynhyrchion yn y siop oherwydd marchnata cyfyngedig, busnesau sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau stryd fawr sy'n agored i niwed, a siopau maes awyr lle mae unrhyw blant yn debygol o fod yng nghwmni oedolyn.

Dadleuwyd hefyd y dylid dosbarthu siopau grŵp symbolau fel busnes bach. O ran math o gynnyrch, awgrymwyd bod Bargeinion Pryd yn cael eu hychwanegu at y rhestr o eithriadau. Dadleuwyd, gan fod Bargaen Pryd yn gyfystyr â phryd o fwyd yn hytrach na byrbryd mae'n briodol y dylai rhai cynhyrchion HFSS fod ar gael fel rhan o'r pecyn o eitemau

Eithriadau ar gyfer cyfyngiadau lleoliad hyrwyddo (cynnig 2)

Tabl 8 Ymatebion i C6

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	22	70	13	3	40
Na	9	71	12	3	36
Ddim yn Siŵr	2	21	6	1	11
Gwag	3	16	13	2	13
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.40 Mae Tabl 8 yn crynhoi ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai'r eithriadau canlynol gael eu cymhwyso i gyfyngiadau hyrwyddo lleoliad: micro a busnesau bach, siopau sy'n llai na 185.8 metr sgwâr, manwerthwyr arbenigol, arall'. Doedd dim consensws clir naill ai o blaid neu yn erbyn yr eithriadau ymhlith ymatebwyr, gyda 40 y cant o blaid a 36 y cant yn gwrthwynebu.
- 2.41 Cytunodd llawer o unigolion â'r eithriadau arfaethedig gan ddadlau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig gychwynnol yn niweidiol i fusnesau llai, yn enwedig i fanwerthwyr arbenigol sy'n gwneud un cynnyrch penodol fel siopau siocled a siopau bara. Amlygodd yr ymatebion hefyd fod busnesau llai fel siopau cyfleus hefyd yn aml yn gyfyngedig o ran gofod sy'n golygu ei bod yn heriol iddyn nhw ddilyn rhywfaint o'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar leoli cynigion hyrwyddo.
- 2.42 Fodd bynnag, mynegodd rhai unigolion bryder y gallai'r eithriadau leihau effaith y ddeddfwriaeth a'i gwneud yn aneffeithiol wrth greu amgylchedd bwyd iach yng Nghymru.

- 2.43 Roedd rhai sefydliadau yn cefnogi'r eithriadau gan eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau Saesneg arfaethedig, ac felly'n lleihau dryswch. Nodwyd y gallai siopau â gofod llawr cyfyngedig ac nad ydynt yn gallu ailstrwythuro mewn modd sy'n cydymffurfio. Awgrymodd un sefydliad y dylid ymestyn yr eithriad mewn gwirionedd i siopau hyd at 3,000 troedfedd sgwâr o ran maint, yn hytrach na 2,000.
- 2.44 Serch hynny, roedd llawer yn teimlo y dylai unrhyw eithriadau fod mor gyfyngedig â phosibl er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau anghydraddoldeb iechyd. Roedd rhai sefydliadau'n dadlau bod busnesau bach fel siopau cyfleur i'w gweld yn aml mewn ardaloedd incwm isel lle gall gordewdra fod yn fwy cyffredin, gan ei gwneud hi'n bwysig felly cynnwys busnesau bach yn y ddeddfwriaeth newydd. Awgrymodd sefydliadau ffordd o liniaru'r heriau cynyddol y gallai busnesau bach wynebu drwy gynnig cyfnod gweithredu estynedig. Awgrymodd sefydliadau hefyd bod angen ystyried cownteri consesiwn mewn siopau mwy gan y gallent ddod o hyd i ffyrdd o osgoi'r cyfyngiadau os ydynt yn cael eu hystyried yn fusnes manwerthwyr arbenigol ar wahân.
- 2.45 I raddau helaeth, roedd busnesau blaid yr eithriadau arfaethedig gan eu bod yn teimlo bod heriau ymarferol sylweddol mewn fformatau siopau llai o ran cymhwyso'r cyfyngiadau lleoliadol oherwydd faint cyfyngedig o ofod llawr. Fel yn achos sefydliadau, cyfeiriwyd hefyd at gysondeb â'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn Lloegr fel un pwysig.
- 2.46 Roedd siopau sy'n rhannu gofod llawr gyda swyddogaethau swyddfa'r post yn cael eu nodi i'w hystyried ymhellach. Awgrymwyd y dylid tynnu ardaloedd ciwio a thrafodiadau siopau swyddfa'r post o gyfrifiad y gofod llawr perthnasol, byddai cynnwys yr ardaloedd hyn yn rhoi adnoddau cymunedol o dan straen.

Thema 2: Bwyta'n iachach Oddi Allan i'r Cartref

Cynnig 3 - Labelu calorïau gorfodol yn y man dewis yn y sector oddi allan i'r cartref

Tabl 9 Ymatebion i C7

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	14	51	15	3	31
Na	15	110	14	1	52
Ddim yn Siŵr	1	12	9	1	9
Gwag	6	5	6	4	8
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.47 Fel yr amlinellir yn Tabl 9, nododd ychydig dros hanner cyfanswm yr ymatebwyr (52 y cant) 'na' i'r cwestiwn 'A ddylen ni gytuno i fandadu labelu calorïau ym mhob lleoliad y tu allan i'r cartref waeth beth fo maint y busnes?', gyda 31 y cant o blaid.
- 2.48 Roedd rhai unigolion o blaid labelu calorïau gorfodol gan eu bod yn credu y byddai hyn yn caniatáu i bobl wneud dewisiadau gwell.
- 2.49 Fodd bynnag, roedd 62 y cant o'r unigolion yn erbyn cyflwyno labelu calorïau gorfodol, gan ddadlau y byddai'n niweidiol o ran annog ymddygiadau afiach i bobl ag anhwylderau bwyta penodol, a gallai fod yn sbardun ailwaelu i bobl sy'n gwella ar ôl anhwylderau bwyta. Fe wnaeth rhai ymatebion hefyd godi'r pwynt bod labelu calorïau yn ffordd annigonol o annog bwyta'n iach a dylid rhoi mwy o bwyslais ar addysg a mynediad at fwyd iach.
- 2.50 Roedd gan sefydliadau farn gymysg am gyflwyno labelu calorïau ym mhob lleoliad oddi allan i'r cartref. Dywedodd y sefydliadau a atebodd ie fod labelu calorïau yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus, yn gostwng eu cymeriant kalori ac o'r herwydd, yn fesur defnyddiol i leihau gordewdra.

- 2.51 Roedd sefydliadau eraill yn dadlau bod labelu calorïau yn gwaethygu meddyliau ac ymddygiadau anhrefnus pobl ag anhwylderau bwyta, ac felly fod ganddo'r potensial i achosi niwed difrifol. Roedd amheuaeth hefyd yn cael ei fwrw ar yr effaith debygol y byddai'r mesur yn ei gael ar fwyta calorïau ar gyfer y boblogaeth gyffredinol. Dadleuodd rhai y dylai fod dulliau eraill o annog bwyta'n iach ac ymwybyddiaeth fel defnyddio'r system goleuadau traffig ar becynnu. Arsylwyd hefyd y dylai gwybodaeth gynnwys gwybodaeth faeth ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol o bobl sydd â chyflyrau iechyd. Roedd sefydliadau eraill yn teimlo bod digon yn cael ei wneud yn y maes hwn eisoes, gan gwestiynu a oedd angen rheoleiddio o gwbl.
- 2.52 Roedd ymatebion gan fusnesau hefyd yn adlewyrchu'r farn wrthwynebus ar y mater hwn. Roedd rhai yn dadlau bod labelu calorïau yn galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau iachach gan dynnu sylw hefyd at sut roedd labelu calorïau wedi ei gyflwyno yn Lloegr hefyd felly roedd yn gwneud synnwyr i Gymru wneud yr un peth. Roedd cefnogaeth i bob lleoliad fod yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau, er iddo gael ei gydnabod y byddai busnesau llai angen cymorth ac arweiniad
- 2.53 Fodd bynnag, nododd rhai busnesau hefyd sut y gallai cyfrif calorïau fod yn gysylltiedig ag anhwylderau bwyta ac felly ni ddylai fod yn orfodol. Cododd ymatebwyr eraill y mater nad oedd yn ymarferol i fusnesau llai ychwanegu calorïau i labeli gan y byddai'n golygu costau a heriau diangen, ac o bosibl yn cynyddu gwastraff bwyd o anallu i addasu bwydlenni, ar adeg pan fo prisiau'n cynyddu a phwysau chwyddiant. Roedd un busnes yn teimlo bod angen eglurhad pellach ar ba fusnesau yw'r sector 'Oddi Allan o'r Cartref'.

Cyfyngu labeli egni i galorïau (Kcals)

Tabl 10 Ymatebion i C8

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	19	53	21	3	36
Na	7	77	12	3	37
Ddim yn Siŵr	5	38	5		18
Gwag	5	5	6	4	7
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.54 Mae Tabl 10 yn dangos trosolwg o'r ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai labelu egni gael ei gyfyngu i galorïau (Kcals)?'. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal ar y mater hwn heb unrhyw gonsensws clir. Dywedodd 36 y cant, 'ie' i gyfyngu labeli i galorïau tra bod 37 y cant yn dweud 'na'.
- 2.55 Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, roedd amrywiaeth barn ar y pwnc hwn. Dywedodd rhai unigolion ie i labelu egni fod mewn calorïau yn unig ac awgrymu ei fod yn ffordd syml i ddefnyddwyr ddeall cynnwys yr hyn maen nhw'n ei fwyta a pheidio â chael eu drysu gan fesuriadau eraill. Awgrymodd rhai hefyd y byddai gormod o wybodaeth yn bwrw cysgod dros y neges ac yn drysu defnyddwyr.
- 2.56 Fodd bynnag, roedd unigolion eraill yn anghytuno â hyn gan ddadlau bod beth bynnag fo'r uned sy'n cael ei defnyddio, mae cyfrif calorïau yn ddi-fudd ac yn gallu bod yn niweidiol i bobl. Awgrymwyd hefyd bod cyfrif calorïau yn rhy simplistig ac mae'n ddull hen ffasiwn o fesur bwyd. Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynnwys maethol bwyd fel halen, braster, ffibr a charbohydradau.
- 2.57 Roedd ymatebion gan sefydliadau hefyd yn adlewyrchu themâu tebyg i'r ymatebion gan unigolion, gan ddadlau bod calorïau yn cadw gwybodaeth faethol yn syml ac yn ddealladwy i gwsmeriaid.

2.58 Fodd bynnag, dadleuodd sefydliadau eraill, er bod calorïau yn cael eu cydnabod a'u deall yn dda, y gallant ddarparu cynrychiolaeth ffug o ba mor iach yw cynnyrch, felly byddai gwybodaeth arall yn fwy defnyddiol. Roedd y rhain yn cynnwys carbohydrad/siwgr oedd yn y cynnyrch, canran y lwfans dyddiol a argymhellir ar gyfer siwgrau, halen a braster (yn unol â labeli golau traffig), arwydd o natur 'wedi'i brosesu' y cynnyrch, a cilojoules (kJ). Codwyd cwestiynau hefyd ar sut y byddai hyn yn effeithio ar bobl sy'n dioddef ag anhwylderau bwyta, gan awgrymu y byddai ffordd arall o gyflwyno gwybodaeth faethol gywir yn well. Mae atebion yn mynd ymlaen i bwysleisio rôl iechyd a lles a sut mae'n bwysig symud y tu hwnt i weld bwyd fel calorïau i'w cyfrif yn unig.

2.59 Roedd ymatebion gan fusnesau yn cytuno mai gwybodaeth calorïau yw'r metrig ac mai hwn sy'n cael ei ddeall orau gan fusnesau a chwsmeriaid ac felly'n cynnig yr ateb mwyaf ymarferol. Fe wnaethon nhw hefyd bwysleisio y dylid cyflwyno cynnwys calorïau yng Nghymru er mwyn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn Lloegr ac i atal dryswch cwsmeriaid. Fodd bynnag, awgrymodd rhai busnesau y gallai fod labelu mwy penodol fel protein neu gynnwys ffibr er mwyn gallu deall yn well beth sydd ym mhob cynnyrch. Cynghorwyd hefyd y dylai labelu calorïau hefyd gynnwys y datganiad 'mae oedolion angen tua 2000 kcal y dydd', sy'n gyson â gofynion yn Lloegr ac yn rhoi syniad bras i gwsmeriaid o faint y dylent fod yn ei fwyta bob dydd.

Eithriadau labelu calorïau ar fwydlenni plant

Tabl 11 Ymatebion i C9

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	8	88	16	2	43
Na	14	69	10	1	35
Ddim yn Siŵr	5	14	10	1	11
Gwag	9	7	8	4	10
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.60 Roedd Cwestiwn 9 yn yr ymgynghoriad yn gofyn, '*A ddylai bwydlenni sy'n cael eu marchnata'n benodol at blant gael eu heithrio o labelu calorïau?*'. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gefnogi eithriadau ar gyfer labelu calorïau ar fwydlenni plant, gyda 43 y cant yn ateb 'ie' yn hytrach na 35 y cant a oedd yn teimlo na ddylid eithrio bwydlenni plant. Roedd y cwestiwn hefyd yn gofyn sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth galorïau hon.
- 2.61 Fe wnaeth cwestiwn hwn beri amrywiaeth o ymatebion, cynryfiadol yn aml, gan unigolion, sefydliadau a busnesau. Pleidleisiodd nifer o unigolion ie i eithrio bwydlenni plant rhag labelu kalori, gan ddadlau bod cynnwys calorïau ar fwydlenni plant yn annog plant i ddatblygu anhwylderau bwyta a chreu perthynas afiach gyda bwyd a bwyta. Yn hytrach, maen nhw'n awgrymu y dylid canolbwyntio ar ddysgu am ansawdd maethol bwyd yn hytrach nag annog plant i gyfri faint o galorïau maen nhw'n eu bwyta.
- 2.62 Fodd bynnag, roedd rhai unigolion yn anghytuno â hyn ac awgrymwyd y dylai plant fod yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n ei fwyta gan fod bwyta'n iach yn bwysig ym mhob oed. Nododd rhai ymatebion fod plentyndod yn amser pwysig i ddysgu am gymeriant kalori, yn enwedig plant sy'n dioddef gyda gordewdra. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cyflwyno'r wybodaeth galorïau ar fwydlen plant mewn ffordd hwyliog a hygyrch, fel gyda delweddau a lliwiau.
- 2.63 Roedd ymatebion gan sefydliadau yn cytuno y dylid eithrio ar fwydlenni plant yn dadlau na fyddai llawer o blant iau yn deall beth mae'r wybodaeth a gyflwynwyd iddyn nhw yn ei olygu. Roedd ymatebion eraill yn poeni am yr effaith y byddai calorïau ar fwydlenni plant yn ei gael ar blant ag anhwylderau bwyta, ac y dylai bwyd gael ei ystyried gan blant yn gyfannol ac nid o ran calorïau. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu ei bod yn bwysig siarad gyda phlant sy'n dioddef o fwyta afiach i ddeall eu barn ar y mater hwn. Fel dewis arall, roedd rhai sefydliadau'n teimlo y dylai fod hyrwyddiadau cadarnhaol ar fwydlenni plant, fel y nifer o lysiau mewn pryd o fwyd, yn hytrach na calorïau. Roedd darparu gwybodaeth kalori'r bwydlenni i'r oedolion oedd gyda'r plant yn awgrym arall. Roedd sefydliadau'n cydnabod yr anhawster ynghylch y mater, o ystyried bod gan blant o wahanol oedrannau anghenion kalori gwahanol.

- 2.64 Awgrymodd rhai sefydliadau bod labelu calorïau ar fwydlenni yn ddull realistig o leihau gordewdra gan fod rhai ardaloedd yng Nghymru wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gordewdra plant. Fe amlygodd yr ymatebion fod cyfradd gordewdra plant uwch yng Nghymru bellach na Lloegr neu'r Alban, ac yn uwch nag unrhyw ranbarth unigol yn Yr Alban. Awgrymodd sefydliadau eraill bod cysondeb gyda deddfwriaeth Lloegr yn bwysig; mae angen gwybodaeth calorïau ar fwydlenni plant ar gyfer hyn ond nid oes angen cyfeirio at gymeriant. Cydnabuwyd hefyd mai gwarcheidwad y plant yw prynwr llawer o eitemau, ac y dylai gwerth maethol bwyd oddi allan i'r cartref gael ei ddeall yr un mor hawdd â nwyddau traul eraill – mae hyn yn bwysig yn enwedig yn achos gofalu am blentyn â chyflwr iechyd, fel diabetes. Awgrymwyd gweithredu system goleuadau traffig hygyrch gyda defnydd o symbolau wyneb gyda gwên ar fwydlenni plant i nodi cynnwys kalori.
- 2.65 Roedd busnesau eraill o blaid eithrio marcio bwydlenni plant â labelu kalori, oherwydd yr ystod oedran eang sy'n cynrychioli gofynion kalori a maethol amrywiol.
- 2.66 Datgelodd busnesau oedd yn erbyn yr eithriad bryder, sef drwy beidio â chynnwys labelu calorïau ar fwydlenni plant, ei fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth yn Lloegr sydd ar hyn o bryd yn gofyn am gyfrif calorïau ar fwydlenni plant. Roedd yr ymatebion yn awgrymu mai'r ffordd fwyaf priodol o ddangos calorïau ar fwydlenni plant fyddai drwy gynllun lliw goleuadau traffig neu ddefnyddio graffeg arall sy'n hawdd ei ddeall.

Bwydlenni heb galorïau ar gael ar gais a lliniaru ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta.

Tabl 12 Ymatebion i C10

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	11	98	20	3	49
Na	12	52	6	1	27
Ddim yn Siŵr	6	20	9	1	13
Gwag	7	8	6	4	10
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.67 Mae Tabl 12 yn crynhoi ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylen ni fandadu busnesau i sicrhau bod bwydlenni heb labelu calorïau ar gael ar gais? Oes yna gamau lliniaru eraill y gallen ni eu rhoi ar waith ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta?'. Cafodd yr opsiwn i sicrhau bod bwydlenni heb galorïau ar gael ar gais ei gefnogi i raddau helaeth ymhlith yr ymatebwyr, gyda 49 y cant o blaid, yn wahanol i 27 y cant oedd yn anghytuno.
- 2.68 Dywedodd unigolion a atebodd ie i fwydlenni heb galorïau ar gais, ei bod yn bwysig i bobl sy'n dioddef ag anhwylderau bwyta gael yr opsiwn hwn. Roedd rhai yn dadlau y dylai bwydlenni rhydd calorïau fod yn ddiofyn i arbed unrhyw embaras posib o orfod gofyn am opsiwn heb galorïau.
- 2.69 Atebodd nifer o unigolion na i hyn, gan ddadlau bod y gost o gynhyrchu bwydlenni gyda calorïau a heb galorïau yn creu cost ddiangen i fusnesau bach.
- 2.70 Roedd sefydliadau o blaid cynnig bwydlenni heb galorïau yn cytuno ei bod hi'n bwysig rhoi'r opsiwn hwn i bobl ag anhwylderau bwyta a allai brofi straen o weld calorïau wrth ymyl eu bwyd. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at dystiolaeth bod calorïau ar fwydlenni yn cynyddu'r tebygolrwydd bod y rhai sydd ag anhwylderau bwyta fel anorecsia neu bwlimia, yn lleihau faint o galorïau maen nhw'n eu harchebu i lefel nad yw'n iach. Cyfeiriwyd yn eang

at risgiau o gynyddu delwedd negyddol o'r corff ac iechyd meddwl gwael. Argymhellodd sefydliadau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr i sicrhau na fyddai labelu gorfodol yn cael unrhyw effaith negyddol anfwriadol ar bobl ag anhwylder bwyta. Ar ben hynny, awgrymwyd monitro parhaus ac adolygu'r polisi a weithredwyd.

- 2.71 Sylwodd ymatebwr efallai na fydd y rhai sydd ag arferion bwyta afiach am 'hysbysebu' eu cyflwr, ac felly mae'n rhaid ystyried y cyd-destun o orfod gofyn am fwydlen wahanol. Roedd awgrymiadau a gyflwynwyd i leihau'r stigma posibl o ofyn am fwydlen heb galoriau yn y lleoliad yn cynnwys codau QR ar fwydlenni fel y gall pob cwsmer ddewis p'un a ydynt am weld y wybodaeth ai peidio, opsiwn i ofyn am fwydlenni heb galoriau ar y plattform archebu, a llai o wybodaeth kalori amlwg, megis trwy system goleuadau traffig.
- 2.72 Roedd rhai sefydliadau oedd yn erbyn darparu bwydlenni heb galoriau ar gais yn teimlo y dylai'r opsiwn hwn fod i fusnesau unigol ystyried yn seiliedig ar eu hamgylchiadau a'u dealltwriaeth o ofynion priodol gan gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae sefydliadau eraill yn credu nad yw'n rhesymegol i eithrio gwybodaeth calorïau oddi ar fwydlenni os oes bwriad o ddifrif i fynd i'r afael â gordewdra. Mater arall a godwyd oedd bod gan rai caffis a bwytai fwydlenni bwrdd yn hytrach na bwydlenni papur unigol, gan ei gwneud hi'n anodd cynnig bwydlenni heb galoriau a gyda chalorïau.
- 2.73 Roedd rhai busnesau'n dadlau y dylid annog cwmnïau i sicrhau bod bwydlenni heb galoriau ar gael ar gais, gan fod hyn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn Lloegr.
- 2.74 Fodd bynnag, roedd busnesau eraill yn dadlau bod cynhyrchu dwy fwydlen wahanol yn gostus i fusnesau bach ac roedden nhw'n dweud mai dim ond nifer fechan o bobl sy'n gofyn am fwydlenni heb galoriau mewn lleoliadau yn Lloegr lle mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno. Roedd rhai yn dadlau y dylai fod eithriad i fusnesau annibynnol orfod cynhyrchu bwydlenni gyda chalorïau a heb galoriau ac yn hytrach na hynny mai corfforaethau ac archfarchnadoedd mawr ddylai orfod cynhyrchu bwydlenni gyda chalorïau a heb galoriau.

Labelu calorïau a gwerthiant ar-lein.

Tabl 13 Ymatebion i C11

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	16	84	24	4	48
Na	9	78	4	0	34
Ddim yn Siŵr	5	10	7	0	8
Gwag	6	6	9	5	10
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.75 Roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol ac yn dangos llawer o wahanol farnau gan y tri grŵp. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein yn gyffredinol o blaid gyda 48 y cant yn datgan, 'ie' mewn ymateb i'r cwestiwn 'A ddylai'r gofyniad i ddangos labelu calorïau ymestyn i werthiannau ar-lein?', gyda 34 y cant yn dewis 'na'.
- 2.76 Atebodd rhai unigolion ie i labelu calorïau gael ei ymestyn i werthiant ar-lein gan ddadlau bod siopa bwyd ar-lein yn dod yn fwyfwy poblogaidd, felly roedd yn bwysig felly cynnwys calorïau ar gynnyrch ar-lein. Roedd ymatebion eraill yn dweud ei bod yn bwysig bod deddfwriaeth yn cael ei chynnwys ym mhob sector i sicrhau ei bod yn effeithiol.
- 2.77 Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebion unigol yn credu bod angen cynnwys labelu calorïau ar werthiant ar-lein gan eu bod yn dadlau bod labelu calorïau yn niweidiol waeth beth fo'r lleoliad a dim ond ar gais y dylai fod ar gael.
- 2.78 Roedd nifer o'r sefydliadau yn awyddus i gynnwys labelu calorïau ar werthiant ar-lein, gan ddadlau bod cynnydd mawr wedi bod mewn gwerthiant ar-lein dros y blynyddoedd diwethaf, felly mae'n bwysig felly bod chwarae teg gyda chyfyngiadau hefyd yn berthnasol i siopa ar-lein. Amlygodd yr ymatebion hefyd fod cynnwys calorïau ar gyfer siopau cadwyn mwy sy'n cyflenwi siopau tecawê trwy apiau dosbarthu yn arbennig o bwysig wrth

geisio lleihau'r bwlch iechyd, gan eu bod fwyaf cyffredin mewn ardaloedd difreintiedig.

- 2.79 Cyfeiriodd sefydliadau o blaid eithriad ar gyfer busnesau micro yn gyffredinol, gan gynnwys ar-lein, gan nodi fod prydau bwyd a gyflenwyd gan fusnesau llai yn destun amrywiadau o ran cynhwysion a dulliau paratoi'r prydau, gan wneud y wybodaeth calorïau yn frاسamcan llac.
- 2.80 Mynegodd ymatebion gan fusnesau eu bod am i labelu calorïau ddilyn y rheoliadau yn Lloegr, felly dylid eu harddangos ar-lein. Roedden nhw'n dadlau bod hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r cwsmer ac yn caniatáu iddyn nhw wneud dewis gwybodus.
- 2.81 Atebodd busnesau eraill na gan ofyn am eglurhad pellach am yr hyn fyddai'n cael ei gynnwys. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y dylid dewis optio mewn / optio allan.

Cynnig 4 - Gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: ail-lenwi am ddim

Tabl 14 Ymatebion i C12

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	14	90	27	5	51
Na	8	65	1		28
Ddim yn Siŵr	3	18	6	1	10
Gwag	11	5	10	3	11
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.82 Mewn ymateb i'r cwestiwn 'A ddylen ni wahardd ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim yn y sector oddi allan i'r sector cartref?', roedd dros hanner yr ymatebwyr (51 y cant) yn teimlo y dylid gwahardd ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim. Roedd hyn yn wrthgyferbyniol i ddim ond 28 y cant o'r ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau ar ail-lenwi am ddim.

- 2.83 Roedd unigolion oedd yn cytuno y dylid gwahardd ail-lenwi yn y sector oddi allan i'r cartref yn dadlau bod yr arfer o gynnig ail-lenwi am ddim yn mynd ati i annog dewisiadau afiach ac yn targedu plant yn bennaf. Fe wnaethon nhw hefyd ddweud bod diodydd melys siwgr yn cyfrannu'n bennaf at gymeriant siwgr am ddim mewn plant a phobl ifanc.
- 2.84 Roedd rhai unigolion yn anghytuno â gwahardd ail-lenwi am ddim ac awgrymodd y byddai hyn gan amlaf yn rhoi anfantais i'r rhai mewn grwpiau economaidd is.
- 2.85 Cytunodd llawer o sefydliadau â'r gwaharddiad arfaethedig gan ddadlau bod ail-lenwi diodydd am ddim yn groes i nodau iechyd cyhoeddus, heb unrhyw fudd maethol, ac yn hytrach na hynny yn annog yfed gormod. Fe wnaethon nhw hefyd awgrymu ei bod hi'n bwysig cael cysondeb gyda pholisi gohiriedig Lloegr i gyfyngu ar ail-lenwi diodydd siwgrog, tra bod eraill yn cyfeirio at y cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn Ffrainc fel enghraifft i'w dilyn. Cytunodd sefydliadau eraill fod hyn yn ffordd gadarnhaol o leihau cymeriant defnyddwyr o siwgr heb osod baich ariannol mawr ar fusnesau. Roedd rhai atebion gan sefydliadau hyd yn oed yn awgrymu y dylai'r ddeddfwriaeth fynd ymhellach a chynnwys ail-lenwi diodydd meddal 'diet' di-siwgr, a chynhyrchion HFSS nad ydynt yn rhan o'r prif brydau bwyd. Byddai hyn yn cynnwys ail-lenwi di-derfyn ar gyfer cynhyrchion fel hufen iâ a phwdinau eraill tebyg.
- 2.86 Fodd bynnag, roedd sefydliadau eraill yn anghytuno â'r gwaharddiad arfaethedig ac fe wnaethant dynnu sylw at sut y gallai hyn effeithio'n negyddol ar deuluoedd incwm isel sy'n methu fforddio prynu mwy o ddiodydd. Roedd amheuaeth hefyd a fyddai'r mesur yn cael unrhyw effaith ar lefelau gordewdra.
- 2.87 Roedd barn busnesau yn gyfyngedig ar y pwnc hwn. Roedd y rhai oedd yn cytuno gyda'r gwaharddiad yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau i hyrwyddo dewisiadau eraill siwgr isel/dim siwgr.
- 2.88 Roedd busnesau oedd yn anghytuno â'r gwaharddiad arfaethedig yn dweud bod gwneuthurwyr diodydd meddal eisoes yn lleihau cynnwys siwgr ac felly ni ddylai gwaharddiad ychwanegol gael ei roi arnynt. Roedd busnesau eraill

yn amheus o'r effaith y byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn ei gael ar leihau gordewdra.

Cynnig 4 - Gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: maint dognau mwy

Tabl 15 Ymatebion i C13

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	12	82	26	4	46
Na	10	72	4	1	33
Ddim yn Siŵr	5	19	4	1	11
Gwag	9	5	10	3	10
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.89 Gofynnodd cwestiwn 13 yn yr ymgynghoriad, 'A ddylen ni gyfyngu ar ddogneau mwy o ddiodydd meddal siwgrog yn y sector oddi allan i'r cartref?'. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r mesur, gyda 46 y cant yn ymateb 'ie'. Gofynnodd y cwestiwn hefyd a oedd ymatebwyr yn cytuno y dylai'r cyfyngiad fod yn un peint.
- 2.90 Cytunodd rhai unigolion y dylid cyfyngu ar rannau mwy o ddiodydd meddal siwgrog, gan ddadlau bod diodydd mawr yn ddiangen ac roedden nhw'n obeithiol y byddai gwahardd diodydd mawr yn lleihau cymeriant calorïau ac yn helpu i fynd i'r afael â gordewdra.
- 2.91 Roedd unigolion eraill yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu y byddai'r cyfyngiad arfaethedig gan amlaf yn gosod grwpiau economaidd is dan anfantais, ac roedd hynny yn annheg. Roedden nhw'n dadlau y dylai defnyddwyr allu prynu'r hyn roedden nhw eisiau ac y dylai fod mwy o bwyslais ar addysg yn hytrach na gwahardd cynhyrchion.
- 2.92 Roedd mwyafrif y sefydliadau'n cytuno â'r cyfyngiadau arfaethedig, gan ddweud bod yfed llawer iawn o ddiodydd siwgrog yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd deintyddol a gordewdra. Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid rhoi

mwy o bwyslais ar ddŵr yfed yn hytrach na diodydd meddal siwgrog. Pwysleisiwyd hefyd bod rhaid ystyried sut mae deddfwriaeth ar gyfyngu ail-lenwi a'r terfynau ar faint cwpanau diod yn rhyngweithio. Pwysleisiodd ymatebion eraill sut yr oedd yn debygol fod dognau mawr wedi cyfrannu at y lefelau gordewdra cynyddol yng Nghymru. Dadleuwyd bod llawer o ddiodydd siwgrog yn cynnwys dros 2.5 llwy de o siwgr fesul 100ml gan ei gwneud yn hanfodol i leihau meintiau gweini. Roedd argymhelliad i sicrhau bod prisiau yn gostwng mewn perthynas ag unrhyw ostyngiad mewn maint.

- 2.93 Roedd busnesau oedd yn anghytuno â'r gwaharddiad arfaethedig yn dadlau y gallai effeithio'n anghymesur ar deuluoedd incwm isel a allai fod yn sbwyllo eu teuluoedd trwy ail-lenwi am ddim a diodydd rhad. Awgrymodd eraill y gallai lleihau maint gweini annog cwsmeriaid i brynu sawl dogn i gyrraedd faint maen nhw'n dymuno ei yfed.
- 2.94 I'r rhai a oedd yn cytuno â'r cyfyngiad, roedd y rhan fwyaf yn credu bod un peint yn gyfyngiad rhesymol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai'r terfyn fod yn is, gan awgrymu mesuriadau metrig cyffredin fel 500ml neu 330ml.

Eithriadau cyfyngiadau labelu calorïau a diod meddal

Tabl 16 Ymatebion i C14

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	7	88	17	3	43
Na	13	65	10	2	34
Ddim yn Siŵr	3	3	0	1	3
Gwag	13	22	17	3	21
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.95 Mae Tabl 16 yn amlinellu ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai ysgolion a cholegau, lleoliadau blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant, cleifion mewnol ysbytai, cartrefi gofal a lleoliadau gofal a gwerthiant elusennol gael eu heithrio o labelu calorïau a gofynion cyfyngiadau ar ddiod?' Ar y cyfan,

roedd yr ymatebwyr yn fwy cefnogol o eithrio'r lleoliadau a grybwyllwyd uchod, gyda 43 y cant yn dewis 'ie', tra bod 34 y cant yn dweud 'na'.

- 2.96 Dywedodd unigolion oedd yn cefnogi eithriadau ar gyfer ysgolion a cholegau fod plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn fwy agored i ddatblygu anhwylderau bwyta a allai gael eu gwaethygu gan labelu calorïau ar fwyd, fel y dangosir gan atebion blaenorol. Yn lle gwahardd cynnyrch o ysgolion, roedd nifer o unigolion yn dadlau y dylai fod pwyslais ar addysg. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai ysbytai gael eu heithrio o labelu calorïau a gofynion diodydd meddal.
- 2.97 Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y dylai'r gwaharddiad diod meddal siwggrog aros mewn ysgolion, ond y dylid eithrio labelu calorïau. Fodd bynnag, amlygodd eraill sut roedd yn arbennig o bwysig cael y polisïau hyn mewn ysgolion gan y dylent fod yn fannau sy'n hybu bwyta'n iach. Roedd rhai unigolion yn dadlau na ddylai fod unrhyw waharddiadau o labelu calorïau na chyfyngiadau diod meddal, gan y gallai hyn fod yn ddryslyd i weddill y boblogaeth a dylai fod cysondeb ar draws pob amgylchedd a demograffeg i'r polisi fod yn effeithiol.
- 2.98 Roedd llawer o sefydliadau'n cytuno â'r gwaharddiadau arfaethedig ac yn dadlau y dylai'r mannau hyn anelu at wella ansawdd y bwyd a sicrhau bod unigolion yn ymgysylltu â ffordd iach o fyw. Gwelwyd y gallai poblogaeth unigryw cleifion mewn ysbytai a phreswylwyr cartrefi gofal elwa mewn gwirionedd o rai bwydydd cynnwys HFSS kalori uchel wedi'u cyfoethogi, ac felly byddai angen datblygu canllawiau yn arbennig yma. Awgrymwyd hefyd y byddai labelu calorïau hefyd yn amhriodol mewn sefydliadau milwrol a charchardai. Argymhelliad arall oedd y dylid teilwra asesiadau o effaith ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol er mwyn deall eu hanghenion mewn cyd-destun ac effaith polisïau o'r fath cyn eu gweithredu.
- 2.99 Roedd ymatebion eraill gan sefydliadau yn anghytuno â'r eithriadau arfaethedig gan ddadlau nad oedd yn rhesymegol i eithrio gwybodaeth calorïau mewn unrhyw leoliadau os ydym ni am fynd i'r afael â gordewdra o ddifrif. Fe wnaethon nhw awgrymu bod ysgolion yn llefydd pwysig iawn i gynnwys labelu calorïau a chyfyngiadau diod meddal gan fod angen i bobl

ifanc ddysgu sut i reoli eu deiet a dysgu am faeth. Amlygwyd sut yr oedd labelu calorïau mewn ysgolion yn fwyfwy hanfodol gan fod bwyd ysgol yn debygol o ddod yn gyfrannwr mwy fyth at gymeriant diet plant yng Nghymru, yn enwedig wrth i brydau ysgol am ddim cyffredinol gael eu cyflwyno. Awgrymodd sefydliadau y dylai elusennau gael eu heithrio ar gyfer digwyddiadau untro ond nid yng nghyd-destun cylch gwaith ehangach, fel mewn caffis.

- 2.100 Nododd ymatebion gan fusnesau nad oedd angen cymhwyso unrhyw gyfyngiadau pellach o ystyried bod rheoliadau llym eisoes yn cyfyngu ar werthiant rhai diodydd meddal mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Cytunodd eraill na fyddai'n briodol cyflwyno labelu calorïau yn y lleoliadau hyn.

Labelu calorïau a chyfyngiadau diod meddal mewn busnesau bach a chanolig oddi allan i'r cartref.

Tabl 17 Ymatebion i C15

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	13	70	15	3	38
Na	13	92	16		45
Ddim yn Siŵr	2		1	2	2
Gwag	8	16	12	4	15
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.101 Mae Tabl 17 yn crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad ar gyfer Cwestiwn 15 yn y ddogfen ymgynghori: 'A ddylai busnesau bach a chanolig oddi allan o'r cartref gael eu cynnwys yn y gofynion labelu calorïau a chyfyngiadau diod meddal?' Roedd 45 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo na ddylai busnesau o'r fath ddod o dan y cyfyngiadau arfaethedig, gyda 38 y cant yn meddwl y dylen nhw.

- 2.102 Cyfeiriodd unigolion a oedd yn credu y dylai busnesau bach a chanolig gael eu cynnwys gan y ddau gyfyngiad at bwysigrwydd cysondeb ar draws busnesau, gan fynegi'r gred y dylai pob busnes gael ei drin yn gyfartal. Roedd ymatebion eraill o blaid cynnwys busnesau bach a chanolig yn y cynigion yn awgrymu bod iechyd yn bwysig ym mhobman.
- 2.103 Nododd ymatebwyr unigol oedd y credu y dylid eithrio busnesau bach a chanolig o'r cyfyngiadau y byddai'r busnesau hyn yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y gwaith a'r costau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer gweithredu'r mesurau hyn. Fe wnaethon nhw hefyd bwysleisio edrych ar effaith y mesurau yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol a phwysigrwydd rhyddid dewis defnyddwyr.
- 2.104 Pwysleisiodd sefydliadau oedd o blaid y mesurau y gallai eithrio busnesau bach a chanolig gael ei ecsbloetio gan fusnesau a masnachfreintiau mwy gyda changhennau bach i greu mannau gwan. Mynegwyd ymhellach bwysigrwydd cysondeb mewn polisi i ganiatáu chwarae teg ymhlith busnesau. Amlygwyd y dylid darparu cymorth ychwanegol i fusnesau bach a chanolig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- 2.105 Cyfeiriodd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r mesur at bwysigrwydd cysondeb ar draws gwledydd y DU. Felly, gan fod y polisi yn Lloegr yn eithrio busnesau bach a chanolig o'r cyfyngiadau hyn, fe wnaethon nhw fynegi'r gred na ddylai gofynion y cyfyngiadau ddod o dan fusnesau o'r maint hwn yng Nghymru. Ategodd sefydliadau'r syniad y byddai'r mesurau hyn yn effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach a chanolig. Pwysleisiwyd y byddai gofynion labelu calorïau a chyfyngiadau diodydd meddal yn cynyddu'r pwysau ar fusnesau llai sydd ag adnoddau cyfyngedig.
- 2.106 Roedd busnesau'n rhanedig ar y mater, gyda nifer cyfartal o ymatebion o blaid y cyfyngiadau ac yn erbyn y cyfyngiadau. Pwysleisiodd busnesau o blaid y mesurau gred ymhellach y dylai cyfyngiadau gynnwys busnesau o bob maint yn gyfartal, er mwyn cynnal tegwch yn eu plith. Roedd pryder y byddai diffyg dilyniant yn y cyfyngiadau sy'n cael eu gosod ar fusnesau yn lleihau effeithiolrwydd y polisi, gan gyfyngu ar lefel y newid ymddygiad fyddai'n cael ei weld.

- 2.107 Yn gyffredinol, nododd busnesau oedd yn credu y dylid gwahardd sefydliadau bach a chanolig o'r cyfyngiadau y llwyth gwaith a'r costau cynyddol fel eu rheswm. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith nad oes gan fusnesau o'r maint hwn yr adnoddau a'r gallu i weithredu'r cyfyngiadau hyn fel arfer. Roedd ymatebion busnesau yn adleisio pwysigrwydd parhad mewn polisi rhwng gwledydd y DU, gan awgrymu y gallai gwersi gael eu dysgu o'r dull a gymerwyd yn Lloegr i hwyluso gweithredu yng Nghymru.

Eithriadau cynnyrch bwyd a diod labelu calorïau

Tabl 18 Ymatebion i C16

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	22	118	15	2	59
Na	7	33	8	1	18
Ddim yn Siŵr			5	2	3
Gwag	7	27	16	4	20
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.108 Mae Tabl 18 yn crynhoi ymatebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer cwestiwn 16: 'A ddylai'r cynnyrch canlynol gael eu heithrio o'r gofyniad labelu calorïau: eitemau bwydlen ar werth am 30 diwrnod neu lai, eitemau wedi'u pecynnu oddi ar y safle (a oedd eisoes yn arddangos gwybodaeth maeth), cynfennau sy'n cael eu hychwanegu gan y cwsmer, ffrwythau neu lysiau rhydd, arall? Roedd cefnogaeth gref i hyn ymhlith yr ymatebwyr gyda 59 y cant yn cytuno mewn cyferbyniad â 18 y cant oedd yn anghytuno.
- 2.109 Cyfeiriodd unigolion at anghyfleustra a chyfyngiadau ymarferol fel rhesymau i eithrio eitemau bwydlen dros dro (y rhai sydd ar werth am 30 diwrnod neu lai) o ofynion labelu calorïau. Mynegodd y rhai oedd yn cefnogi eithrio rhai eitemau y gred nad yw gwybodaeth calorïau ar wahân yn nodi manylion gwerthoedd maethol bwyd yn gywir. Roedden nhw'n dadlau, felly, y gallai labelu calorïau eitemau ffrwythau a llysiau heb gyd-destun eu buddion maethol atal pobl rhag eu bwyta.

- 2.110 Fel arall, roedd unigolion oedd yn gwrthwynebu eithrio rhai eitemau yn dadlau y dylai gwybodaeth faethol fod ar gael ar gyfer pob eitem; sy'n awgrymu y gallai labeli calorïau ar ffrwythau a llysiau ddarparu cymhariaeth ddefnyddiol ar gyfer dewisiadau amgen HFSS.
- 2.111 Roedd nifer sylweddol o ymatebion gan sefydliadau o blaid eithrio'r eitemau a restrir o labelu calorïau, gan ddadlau y byddai ychwanegu labeli o'r fath at yr eitemau hyn yn darparu budd cyfyngedig mewn perthynas â'r anghyfleustra a chostau y byddai busnesau'n eu hysgwyddo. Tynnodd yr ymatebion sylw at gyfyngiadau ymarferol labelu calorïau ar gyfer eitemau bwydlen sydd ar werth am 30 diwrnod neu lai, yn enwedig yn ystod dathliadau tymhorol cenedlaethol neu achosion lle mae gan fusnes ychydig iawn o reolaeth ar faint dogn. Nid yw'n orfodol labelu calorïau ar ffrwythau a llysiau rhydd mewn deddfwriaeth yng ngwledydd eraill y DU, ac felly byddai cynnwys labelu o'r fath yng Nghymru yn cyflwyno cost ychwanegol i fusnesau yng Nghymru.
- 2.112 Roedd rhai sefydliadau yn gwrthwynebu eithrio labeli calorïau ar rai cynhyrchion. Mynegodd y sefydliadau hyn bryder bod eithriad yn caniatáu creu mannau gwan. Cwestiynwyd sut y byddai busnesau'n profi bod cynnyrch ar werth am lai na 30 diwrnod a sut y byddai cydymffurfiaeth â'r amserlen yn cael ei orfodi. Awgrymwyd y byddai gostyngiad o 30 diwrnod i 7 diwrnod yn fwy addas. Nododd sefydliadau a oedd yn gwrthwynebu eithriadau mewn perthynas â chyfennau fod dwysedd kalori rhai cyfennau yn golygu bod eu hychwanegu yn cael cryn effaith ar gyfanswm calorïau pryd o fwyd. Nododd un ymatebwr fod y rhagdybiaeth bod bwydydd sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw bob amser yn cynnwys gwybodaeth faethol yn anghywir yn ôl Rheoliad a gedwir (UE) 1169/2011.
- 2.113 Yn gyffredinol, roedd busnesau o blaid eithrio yr eitemau a restrir o labelu calorïau, gan nodi y byddai cynnwys yr eitemau yn cynyddu cymhlethdod yr ymyrraeth tra'n darparu ychydig iawn o fudd. Cafodd y gallu i ddarparu gwybodaeth gywir neu hawdd ei deall am galorïau cynfennau, oherwydd yr amrywiant sylweddol yn faint o gynfennau a ddefnyddiwyd gan bob cwsmer, ei gwestiynu gan fusnesau. Amlygwyd parhad mewn polisi rhwng gwledydd y DU gan fusnesau fel rheswm pwysig dros eithrio.

Thema 3: Amgylcheddau Bwyd Lleol Iachach

Cynnig 5 – Cefnogi gweithredu'n lleol – pa offer a chymorth fydd eu hangen i gefnogi newid

- 2.114 Roedd Cwestiwn 17 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn 'Pa gefnogaeth a mesurau y gellid eu rhoi ar waith i awdurdodau lleol er mwyn helpu i wella argaeledd opsiynau iachach o fewn ardaloedd lleol?'
- 2.115 Roedd addysg yn cael ei awgrymu'n aml yn yr ymatebion gan unigolion gyda llawer yn galw am fwy o bresenoldeb i faeth a choginio yn y cwriclewm, ynghyd â chynnig dosbarthiadau sy'n cynnig cyngor maethol i bob oedolyn. Tynnodd unigolion sylw at bwysigrwydd gwneud bwydydd iachach yn fwy fforddiadwy a hygyrch i bawb. Awgrymwyd defnyddio cymorthdaliadau ar gyfer dewisiadau amgen iachach, buddsoddi mewn mentrau tyfu a ffermio, ac ad-daliadau treth ar gyfer stondinau sy'n gwerthu cynnyrch lleol i gyd fel mecanweithiau posibl i gyflawni hyn. Cynigiwyd addasu cyfraddau busnes i ffafrio busnesau gyda dewisiadau amgen iachach fel mesur i gynyddu hygyrchedd bwydydd iachach, gyda'r awgrym y gallai busnesau sy'n gwerthu dewisiadau amgen iachach gael rhyddhad cyfraddau busnes. Awgrymodd unigolion gyfyngiadau ar nifer, lleoliad ac amseroedd agor siopau bwyd cyflym, yn enwedig pan yn agos at ysgolion.
- 2.116 Tynnodd sefydliadau sylw at yr angen am fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi busnesau lleol gyda'u gallu i gyflenwi dewisiadau amgen iachach, gan nodi pwysigrwydd polisi a hyrwyddo cydymdeimladol ar y cyd â buddsoddiad. Awgrymodd sefydliadau y dylai cynllunio awdurdodau lleol ystyried oa pa mor hwylus yw mynediad cymunedau at ddŵr ffres a chynnyrch ffres a gweithio i leihau anialwch bwyd. Ystyriwyd hefyd bod rôl caffael o ran darparu bwyd iach ar gyfer arlwygo a manwerthu i ysgolion ac ysbytai yn cael effaith. Argymhellwyd newid mewn ffocws tuag at gynyddu argaeledd bwydydd heb eu prosesu, nad ydynt yn HFFS fel arfer, gan sefydliadau yn yr ymgynghoriad hwn. Awgrymwyd ymhellach hyrwyddo canllawiau ar gyfer lleoliadau allweddol a mabwysiadu cynlluniau fel Gwobr Opsiynau Iach a Dechrau Iach i annog opsiynau iachach fel mesur posibl.

- 2.117 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys dosbarthu blychau bwyd iach sy'n cynnwys ffrwythau a llysiau a chardiau ryseitiau, a chynlluniau rhannu cynnyrch rhandir cymunedol a mentrau cydweithredol. Mewn ysgolion, amlygwyd sut y gellid defnyddio cynnydd mewn dysgu yn yr awyr agored i helpu i ddarparu bwyd ar gyfer cyd-fyfyrwyr. Byddai hyn yn arwain at well dealltwriaeth o fwyd a maeth a gallai hefyd arwain at ddiddordeb gydol oes mewn cynhyrchu bwyd. Gwnaed argymhelliad gan fudiad i gyfyngu ar hysbysebion afiach a nawdd mewn gorsafoedd, digwyddiadau chwaraeon, canolfannau hamdden a mannau cyhoeddus eraill.
- 2.118 Fe wnaeth busnesau ailadrodd pwysigrwydd addysg yn eu hymatebion, gan awgrymu hyrwyddo prydau iach i fod yn fesur defnyddiol. Roedd rhai ymatebion hefyd yn awgrymu mwy o gynigion hyrwyddo ar grwpiau bwyd iach fel cnau, ffrwythau a llysiau a chyfanfwyd. Byddai hyn felly yn cynyddu pryniant y cynhyrchion hyn ac yn gwneud cynhyrchion yn fwy hygyrch i gymunedau incwm isel.

Cynnig 6: Cyfyngu ar siopau tecawê bwyd poeth – gan ystyried terfynau dirlawnder, pwerau trwyddedu ac amgylcheddau presennol o amgylch ysgolion a cholegau

Tabl 19 Ymatebion i C18

	Busnes	Unigolyn	Sefydliad	Arall	% o'r ymatebion
Ydw	9	85	21	3	44
Na	7	58	3		25
Ddim yn Siŵr	3		4	1	3
Gwag	17	35	16	5	27
Cyfanswm	36	178	44	9	100

- 2.119 Adolygu'r cymorth cynllunio a thrwyddedu presennol, gan gynnwys canllawiau, i fynd i'r afael â dosbarthiad siopau tecawê bwyd poeth yn arbennig yn agos at ysgolion uwchradd a cholegau. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn cefnogi cyflwyno adolygiad o gefnogaeth a chanllawiau

presennol (44 y cant), gyda 25 y cant yn gwrthwynebu hyn Ni wnaeth 27 y cant ychwanegol ymateb i'r cwestiwn.

- 2.120 Roedd unigolion a leisiodd eu cefnogaeth i'r mesur yn dadlau bod pobl yn aml yn prynu'r hyn sydd ar gael yn rhwydd iddyn nhw, ac felly'r gred ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r cyflenwad i gael newid. Cyfeiriodd unigolion at bwysigrwydd gwella ansawdd bwyd mewn ardaloedd penodol, ac yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig ac yn agos at ysgolion. Bu nifer o unigolion yn trafod sut mae trefi yn aml yn llawn o siopau tecawê bwyd poeth.
- 2.121 Mynegodd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r mesur hwn gred y byddai ei weithredu yn niweidiol i fusnesau lleol a threfi bach gyda budd cyfyngedig; mae'r defnydd cynyddol o lwyfannau sy'n gwneud danfon tecawê bwyd poeth yn hawdd yn golygu y bydd pobl yn dal i allu cael mynediad atynt yn rhwydd. Roedd unigolion yn credu ymhellach ym mhwysigrwydd rhyddid dewis, gan ddweud bod addysg yn opsiwn amgen gwell.
- 2.122 Roedd sefydliadau ar y cyfan o blaid y cynnig; gan ddweud na ddylid lleoli siop tecawê bwyd poeth o fewn 400m i safleoedd fel ysgolion lle mae plant yn ymgynnull. Cyfeiriodd un ymatebwr at astudiaeth a gynhaliwyd gan Gyngor Brighton a Hove a ganfu nad yw radiws 400m yn ddigonol i atal disgyblion rhag gwneud teithiau amser cinio i ymweld â sefydliadau o'r fath, a bod angen gwaharddiad radiws 800m, gan alw am atgynhyrchu o'r fath gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Awgrymodd sefydliadau hefyd y gallai'r amseroedd agor gael eu cyfyngu i gyfyngu ar nifer y plant ysgol sy'n ymweld â'r safle. Ar y cyd â chyfyngiadau cynllunio, codwyd awgrymiadau hefyd i ysgolion ddatblygu polisïau eang ynghylch atal danfon bwyd cyflym i'w safleoedd. Roedd ymatebion gan sefydliadau yn argymhell defnyddio asesiadau o effaith ar iechyd i lywio penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol, gan gymryd ysbrydoliaeth o arfer gorau yn Lloegr. Awgrym arall a grybwyllwyd gan sefydliadau oedd cefnogi cymdeithasau tai i ddarparu digon o le mewnol preswyl ar gyfer paratoi bwyd, coginio, ardaloedd bwyta ac ardaloedd storio er mwyn osgoi dibyniaeth ar ddarparwyr tecawê.

- 2.123 Roedd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn dadlau bod angen rhagor o ymchwil er mwyn canfod a oes cysylltiad rhwng tecawê bwyd poeth a phwysau afiach. Roedd galwadau hefyd i ganfod ai'r ymateb polisi hwn oedd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid ymddygiad. Roedd rhai sefydliadau'n dadlau nad yw pob tecawê bwyd poeth yn gwerthu cynnyrch HFSS yn unig ac y dylid caniatáu i'r rhai sy'n cynnig dewisiadau amgen iach weithredu yn y parthau cyfyngedig. Cafodd pryderon eu codi ar yr effaith y byddai trwyddedu o'r fath yn ei gael ar gymunedau, yn enwedig mewn trefi a phentrefi gwledig llai. Roedd sefydliadau'n cwestiynu dichonoldeb y cynnig, gan ddweud bod cwrmpas cyfyngedig yn y rheoliadau cynllunio a thrwyddedu presennol i reoli tecawê bwyd poeth ger ysgolion a cholegau.
- 2.124 Nododd y lleiafrif o fusnesau oedd yn erbyn y cynnig y dylai'r pwyslais fod ar addysgu pobl, nid cyfyngu ar fusnes. Fe wnaethon nhw fynegi'r gred nad yw caniatâd cynllunio yn gallu ystyried sefyllfaoedd lleol a gallai gwaharddiadau hollgynhwysfawr gael effeithiau niweidiol ar y stryd fawr sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd.

Mesurau posibl eraill ac effeithiau ehangach

Mesurau posibl eraill

- 2.125 Mae Cwestiwn 21 yn y ddogfen ymgynghori yn darllen: 'Rhowch fanylion opsiynau eraill allai helpu i sbarduno newid cadarnhaol yn yr amgylchedd bwyd a chefnogi pobl yng Nghymru i wneud dewisiadau mwy iachus. Fe wnaeth yr ymatebwyr ddarparu ystod eang o awgrymiadau, gyda ffocws ar addysg yn thema gyffredin.
- 2.126 Yn ogystal â mwy o ffocws ar addysg, galwodd unigolion am gynnydd yn argaeledd a hygyrchedd dewisiadau bwyd iachach. Argymhellwyd gostyngiad yng nghost dewisiadau bwyd iachach er mwyn helpu i sbarduno newid cadarnhaol yn yr amgylchedd bwyd. Mekanweithiau awgrymedig i gyflawni'r gostyngiad hwn oedd seibiannau treth, defnyddio cwponau, a chyllid a grantiau ecsgliwsif i fusnesau sy'n gwerthu bwydydd iachach. Awgrymodd unigolion y dylid lleihau cost campfeydd, gwersi nofio a dosbarthiadau ymarfer corff ar y cyd â datblygu mentrau i hybu manteision cerdded a beicio ac i annog ymarfer corff. Awgrymwyd cyfyngiadau ar

hysbysebion am gynnyrch HFSS hefyd fel opsiwn i greu newid positif yn yr amgylchedd bwyd yng Nghymru.

- 2.127 Fe wnaeth sefydliadau ail-bwysleisio pwysigrwydd addysg defnyddwyr mewn perthynas â'r amgylchedd bwyd a sut i wneud dewisiadau iachach, gan dynnu sylw at y ffaith na ddylai'r cyfrifoldeb fod ar fusnesau bwyd yn unig. Argymhellwyd y dylid gweithredu'r cyfyngiadau ar hysbysebu, noddi a hyrwyddo cynnyrch HFSS mewn mannau cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd bod angen dull system gyfan gan fod materion fel gordewdra plant yn effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol plentyn. Roedd sefydliadau'n dadlau y byddai darparu grantiau a chymhellion ariannol i fusnesau sy'n cynnig dewisiadau amgen iachach yn cael dylanwad cadarnhaol ar sbarduno newid cadarnhaol yn yr amgylchedd bwyd yng Nghymru. Awgrymwyd y byddai modd defnyddio trethi busnes a'r system gynllunio i gynyddu argaeledd opsiynau mwy maethlon. Pwysleisiwyd bod cyfleoedd i gysylltu amgylcheddau bwyd iach ag agenda ehangach dros newid, gan gynnwys gwell caffael ar gyfer y sector cyhoeddus, buddsoddi mewn systemau bwyd lleol a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
- 2.128 Yn unol â'r ymatebion gan unigolion a sefydliadau, argymhellodd busnesau fwy o ffocws ar addysg, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o ddewisiadau bwyd iachach. Awgrymodd busnesau y dylid ystyried maint dogn fel opsiwn ychwanegol er mwyn helpu i sbarduno newid cadarnhaol yn yr amgylchedd bwyd yng Nghymru. Yn ogystal â chyllid a chefnogaeth i fusnesau sy'n cynnig dewisiadau amgen iachus, awgrymwyd y gallai ariannu clybiau brecwast a rhaglenni chwaraeon mewn ysgolion a phrydau ysgol am ddim gefnogi pobl yng Nghymru i wneud dewisiadau mwy iachus. Awgrymwyd hefyd y dylid cymryd mwy o gyfleoedd i ddathlu a hyrwyddo manteision iechyd bwydydd syml a heb eu prosesu. Dywedodd rhai busnesau eu bod wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd ar ba gynhyrchion y gallant eu cynnwys ar eu tudalen cynigion iach, gan wneud hyrwyddiadau ar gyfer ygrwpiau bwyd iach hyn yn gyfyngedig.

Effeithiau ehangach: nodweddion gwarchodedig

- 2.129 Mae Cwestiwn 22 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn: 'Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon gael effaith ar y canlynol: y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol, plant a phobl ifanc, a chydraddoldeb mewn perthynas â; Oedran, Rhyw, Hil, Crefydd, Cyfeiriadedd rhywiol, Beichiogrwydd a mamolaeth, Anabledd, Ailbennu rhywedd, a Phriodas/partneriaeth sifil.' Roedd 44 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai, tra bod 26 y cant o'r rhai wnaeth ymateb yn anghytuno.
- 2.130 Dywedodd unigolion y gallai'r cynigion gael cryn effaith andwyol ar bobl ifanc a'r rhai sydd ag anableddau, yn enwedig y rhai sydd ag anhwylderau bwyta neu sydd â risg uwch o anhwylderau bwyta. Nodwyd y gallai'r cynigion greu heriau i unigolion sydd â gofynion dietegol penodol. Mynegodd unigolion eu pryder y gall opsiynau bwyd iachach ddod ar gost uwch, felly bydd y cynigion yn effeithio'n anghymesur ar bobl o swyddi economaidd-gymdeithasol is. O ran rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, awgrymodd unigolion y gallai'r polisi leihau nifer y busnesau ymhellach, gan gyfyngu ar argaeledd nwyddau.
- 2.131 Awgrymodd sefydliadau y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, gan arwain o bosibl at fuddion iechyd i unigolion, yn enwedig pobl ifanc. Awgrymwyd y gallai natur y cynigion arwain at effeithiau a welwyd yn bod yn ddibynnol ar oedran. Cyfeiriwyd hefyd at fuddion iechyd i grwpiau economaidd-gymdeithasol mewn ardaloedd difreintiedig.
- 2.132 Fodd bynnag, mynegodd sefydliadau eraill bryder y bydd y cynigion yn cael mwy o effaith ar y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gyda'r potensial iddyn nhw waethygu'r argyfwng costau byw. Amlygwyd hefyd y gall siopau bwyd mewn ardaloedd incwm isel wynebu rhwystrau penodol i gynnig dewisiadau bwyd a diod iachach fel marchnadoedd hynod gystadleuol a sensitif o ran [risiau, a diffyg galw gwirioneddol neu ganfyddedig am fwyd a diod iachach. Nodwyd efallai y bydd angen mwy o ystyriaeth mewn ardaloedd gwledig lle mae'n debygol y bydd llai o ddewis bwyd, er mwyn peidio â chael effaith negyddol.

- 2.133 Pwysleisiodd busnesau'r pryder y gallai'r cynigion gael mwy o effaith ar y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mynegwyd pryder pellach am grwpiau sy'n fwy tebygol o fod mewn perygl o anhwylderau bwyta, gan gynnwys merched a phobl ifanc. Amlygwyd hefyd sut mae cynigion hyrwyddo fel bargeinion prydau yn ffordd bwysig iawn o ddarparu bwyd am bris cost cystadleuol, sy'n arbennig o bwysig i bobl sy'n byw gydag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mynegodd busnesau'r gred y bydd cyfyngiadau ar werthu cynnyrch HFSS mewn lleoliadau ar y stryd fawr fregus yn niweidio hyfywedd masnachol rhai siopau, gan beryglu siopau a gwasanaethau lleol. Awgrymodd busnesau y gallai'r cynigion effeithio'n andwyol ar unigolion o grwpiau ethnig y mae bwyd yn rhan o ofyniad defodol neu grefyddol iddynt.

Effeithiau ehangach: yr iaith Gymraeg

- 2.134 Mae Cwestiwn 23 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn 'Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r ymgynghoriad yn ei gael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.' Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fydd yna? Sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?' Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn disgwyl effaith gyfyngedig ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion.
- 2.135 Mynegodd yr ymatebwyr bwysigrwydd yr holl wybodaeth yn cael ei chynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Awgrymodd rhai unigolion y dylid rhoi cymorth i fusnesau leihau unrhyw effaith negyddol bosib yn sgil y cynigion ar y Gymraeg.
- 2.136 Adleisiodd sefydliadau bwysigrwydd cael yr holl wybodaeth a'r ohebiaeth, gan gynnwys arwyddion, posteri, a chyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Awgrymodd sefydliadau, er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol bosib yn y sgil y cynigion ar y Gymraeg, y dylid rhoi arian a gwasanaethau i fusnesau i helpu gyda chyfieithu.
- 2.137 Ni roddodd busnesau adborth ychwanegol i'w nodi ar y mater hwn.

Effeithiau ehangach: arall

- 2.138 Mae Cwestiwn 24 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn, 'Oes unrhyw grwpiau eraill o fewn cymdeithas nad ydym wedi cyfeirio atynt eisoes rydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'r cynigion yn cael effaith arnyn nhw?'.
- 2.139 Yn gyffredinol, mynegodd unigolion bwysigrwydd ystyried yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar bobl ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o ddatblygu anhwylderau bwyta.
- 2.140 Dywedodd sefydliadau fod angen cyfeirio at bobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig ymhellach oherwydd y risg cynyddol o diabetes Math 1 a Math 2. Dylid hefyd ystyried gofalcwyr sy'n gofalu am bobl â chyflyrau iechyd hir-dymor.
- 2.141 Ar wahân i'r grwpiau y cyfeiriwyd atynt eisoes, ni wnaeth busnesau dynnu sylw at unrhyw grwpiau pellach a allai gael eu heffeithio gan y cynigion.

Cymorth Busnes ac Effaith

Cymorth i fusnesau

- 2.142 Gofynnodd cwestiwn 25 'Pa gefnogaeth y gellid ei darparu i helpu eich busnes i baratoi ar gyfer y cynigion canlynol:
- 2.143 cyfyngiadau hyrwyddo (Thema 1- cynigion 1 a 2)
- 2.144 arddangos calorïau gorfodol (Thema 2-cynnig 3)
- 2.145 gosod cyfyngiadau ar faint diod feddal siwgrog (Thema 2- cynnig 4)
- 2.146 cyfyngiadau ar siopau tecawê bwyd poeth ger ysgolion a cholegau (Thema 3- cynnig 6)'
- 2.147 Awgrymodd unigolion y gellid defnyddio ymgynghorwyr am ddim i helpu busnesau addasu i'r effaith y gallai'r cynigion ei gael ar eu hadnoddau. Nodwyd pwysigrwydd darparu diweddariadau clir a hawdd eu deall ar unrhyw newidiadau. Pwysleisiodd unigolion yr angen i fusnesau gael cymorth i helpu i ganfod y wybodaeth ofynnol am galorïau, heb gostau mawr i fusnesau bach.

- 2.148 Awgrymmodd sefydliadau y byddai cysondeb mewn polisi rhwng gwledydd y DU yn helpu busnesau baratoi ar gyfer gweithredu'r cynigion. Dywedodd nifer o sefydliadau ei bod yn bwysig ystyried amseriad rhoi'r cynigion ar waith, gan sicrhau bod busnesau'n cael amser addas i addasu i ddeddfwriaeth newydd a'i gweithredu. Awgrymwyd bod busnesau'n cael o leiaf 18 i 24 mis o gyhoeddi canllawiau'r llywodraeth, i baratoi ar gyfer gweithredu'r cynigion. Cynigiwyd yr angen am adolygiad annibynnol o bolisi o fewn 2-3 mlynedd i'w roi ar waith, yn ogystal â ffurfio gweithgorau i helpu busnesau i baratoi ar gyfer gweithredu'r cynigion. Cyfeiriodd sefydliadau y byddai gweithgorau'n rhoi cyfle i randdeiliaid ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gyda llunwyr polisi a gorfodwyr yn y pen draw. Roedd sefydliadau yn argymhell cyllid ar y cyd â chefnogaeth gan swyddogion ieuchyd yr amgylchedd a safonau masnach i helpu busnesau addasu i unrhyw newidiadau. Amlygwyd hefyd na ddylid trin cosbau a gorfodi labelu calorïau yn yr un modd â materion hylendid bwyd, gan ddweud bod labelu calorïau yn offeryn gwybodaeth i gwsmeriaid yn hytrach na mater diogelwch bwyd. Awgrymwyd gweminarau a fideos byr wedi'u hanimeiddio fel dull i gefnogi labelu calorïau ymhellach.
- 2.149 Pwysleisiodd busnesau'r angen am gymorth ariannol i'w helpu i baratoi ar gyfer gweithredu'r cynigion. Cyfeiriwyd at fynediad i feddalwedd cyfrifo calorïau ar-lein rhad ac am ddim fel offeryn defnyddiol i helpu busnesau i addasu, ynghyd â chyflwyno gwerthoedd wedi'u safoni ar gyfer cynnyrch ffres a llysiau rhydd. Tynnodd busnesau sylw at bwysigrwydd canllawiau clir a chyfathrebu yn eu hymatebion, gyda nifer yn galw am gyfyngiadau i gyd-fynd â'r rhai a gynigir yn Lloegr gymaint â phosibl. Roedd ymatebion eraill hefyd yn awgrymu y byddai angen o leiaf 18 mis ar fusnesau i baratoi ar gyfer y cyfyngiadau arfaethedig.
- 2.150 Effaith ar fusnesau
- 2.151 Mae Cwestiwn 26 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn 'Rydym ni wedi cyfrifo costau pontio darluniadol yn y ddau asesiad o effaith. Ydy'r cyfrifiadau hyn yn adlewyrchu asesiad teg o'r costau y byddai eich sefydliad neu fusnes yn eu hwynebu?' Dywedodd nifer o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n gallu

ymateb i'r asesiad o effaith yn absenoldeb gwybodaeth ychwanegol, gyda dim ond 8 y cant yn ymateb 'ie' a 14 y cant yn ymateb 'na'

- 2.152 Amlygodd yr ymatebion gan sefydliadau fod angen ystyried yr asesiad o effaith ymhellach, gan nad yw'n gwneud darparu ar gyfer effaith yn seiliedig ar faint busnes ac mae'n tybio nad oes unrhyw gostau parhaus i fanwerthwyr, heb gyfrif am gostau parhaus gwiriadau cydymffurfio wythnosol. Roedd rhai sefydliadau'n dadlau bod yr asesiadau o effaith yn tanbriso'r costau trosglwyddo yn sylweddol. Fe wnaethon nhw ddweud nad oedd graddau llawn y gwaith i'r eiddo a'r gofynion staffio, ynghyd â'r gofyniad i ddiweddarau systemau TG a hyfforddi staff wedi'u hystyried yn llawn. Mynegodd sefydliadau bryder nad oedd yr asesiadau o effaith yn cyfrif am unrhyw effaith uniongyrchol ar elw oherwydd y cyfyngiadau, nac effaith yr amrywiant o ran cyfyngiadau cynhyrchion HFSS ymhlith gwledydd y DU.
- 2.153 Roedd ymatebion gan fusnesau i'r cwestiwn hwn yn gyfyngedig. Fe wnaeth busnesau gwestiynu'r costau cydymffurfio a ddefnyddir yn yr asesiadau o effaith, gan ddweud ei fod yn tybio lefel isel iawn o ran costau cydymffurfio. Awgrymwyd hefyd, o'r profiad yn Lloegr, bod ad-drefnu siopau, yn enwedig symud cabinetau oer yn golygu bod costau'n llawer mwy sylweddol na'r addysg a'r codi ymwybyddiaeth sydd wedi'i grybwyll.
- 2.154 Tystiolaeth neu ddata pellach a gyflwynwyd i'w hystyried
- 2.155 Mae Cwestiwn 27 yn y ddogfen ymgynghori yn gofyn, 'A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth neu ddata pellach yr hoffech ei gyflwyno i ni ei ystyried ar gyfer ein hasesiad o effaith terfynol neu unrhyw sylwadau penodol ar y fethodoleg neu'r rhagdybiaethau a wnaed?'
- 2.156 Ymatebodd sefydliadau gyda nifer o enghreifftiau o dystiolaeth a data. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau newydd ar gyfer diabetes Math 2 gan y Gymdeithas Clinigwyr Diabetes Plant, a'r model cyflenwi safonau bwyd wedi'i adolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel rhan o'i Rhaglen Cyflawni Cydymffurfiaeth Busnesau.
- 2.157 Awgrymodd rhai busnesau y byddai'n ddefnyddiol gwybod amcangyfrif o effaith calorïau y mesurau cyfunol yn yr ymgynghoriad gan y byddai hyn yn helpu i gyfiawnhau'r costau i fusnesau o weithredu cyfyngiadau hyrwyddo.

3. Amgylchedd Bwyd Iach: Ymgynghoriad Hawdd Ei Ddeall Cwestiynau 1-18

- 3.1 Fe wnaeth ymgynghoriad Hawdd ei Ddeall ddenu 143 o ymatebion ar-lein. O'r rhain, roedd 122 o ymatebion gan unigolion a 21 ymateb gan fusnesau neu sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys manwerthwyr bwyd annibynnol a busnesau bach eraill, cyrff iechyd ac addysg.

Thema 1: Basgedi Siopa Iachach

Cynnig 1 - Cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion HFSS

Tabl 20 Ymatebion i C1

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	54	16	49
Na	59	4	44
Ddim yn Siŵr	7	1	6
Gwag	2		1
Cyfanswm	122	21	100

- 3.2 Mae Tabl 20 yn crynhoi'r ymateb i gwestiwn 1 'Rydym ni am gyflwyno deddf i atal hyrwyddiadau am fwydydd afiach sydd yn uchel mewn braster, siwgr, a halen. Mae hyn yn cynnwys gostyngiadau mewn prisiau dros dro (fel cynnig yr wythnos), cynigion aml-brynu (fel prynu un cael un am ddim) a chynigion cyfaint (fel bargeinion prydau). Ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da?'. Nid oedd consensws clir ymhlith y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hawdd ei ddeall, gyda 49 y cant yn cefnogi'r ddeddfwriaeth arfaethedig a 44 y cant yn gwrthwynebu.
- 3.3 Roedd unigolion oedd yn cefnogi'r mesurau yn cydnabod bod hyrwyddiadau'n annog prynu cynnyrch HFSS ychwanegol, diangen. Roedd llawer o unigolion yn dadlau bod yr hyrwyddiadau hyn nid yn unig yn gwneud i bobl brynu mwy ond hefyd bwyta mwy. Roedd nifer o unigolion yn pwysleisio'r berthynas rhwng cynhyrchion HFSS ac ymddygiadau afiach a gordewdra.

- 3.4 Roedd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn poeni y byddai'r mesur yn cynyddu costau bwyd ar adeg pan fo nifer yn ei chael hi'n anodd gyda'r argyfwng costau byw presennol. Roedd ymatebion eraill yn pwysleisio'r effaith niweidiol y gallai'r mesurau eu cael ar y rhai sydd ag anhwylder bwyta neu mewn perygl ohonynt gan ei fod yn parhau â'r syniad bod rhai bwydydd yn dda ac bwydydd eraill yn ddrwg.
- 3.5 Roedd mwyafrif y sefydliadau yn yr ymgynghoriad yn cynnig cefnogaeth i'r mesur, gan ddadlau bod cynigion hyrwyddo yn annog gorfwyta cynhyrchion HFSS. Pwysleisiwyd yr angen i wneud dewisiadau amgen iach yn fwy hygyrch a fforddiadwy gan sefydliadau.
- 3.6 Awgrymodd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r mesur, fod gan fanwerthu eisoes lefel sylweddol o reoleiddio a gwariant a byddai'r mesurau hyn yn cynyddu costau a llwyth gwaith i fusnesau. Awgrymodd nifer o sefydliadau y dylai'r cyfrifoldeb fod ar unigolion yn gwneud eu dewisiadau eu hunain.

Cynnig 2 - Cyfyngu ar leoli cynhyrchion HFSS mewn lleoliadau sy'n annog prynu

Tabl 21 Ymatebion i C2

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	77	18	66
Na	35	2	26
Ddim yn Siŵr	6	1	5
Gwag	4		3
Cyfanswm	122	21	100

- 3.7 Mae Tabl 21 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn 2 'Rydym am atal bwydydd llai iach rhag cael eu gosod mewn mynedfeydd siopau, wrth y tiliau, ar ben yr eil, neu unedau arddangos annibynnol. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da?' Gyda 66 y cant o'r ymatebwyr yn ateb, 'ie' a 26 y cant yn ateb 'na', roedd cefnogaeth sylweddol i'r mesur hwn.
- 3.8 Roedd unigolion ar y cyfan yn cefnogi'r mesur. Cyfeiriodd y rhai oedd yn cefnogi at y gred bod arddangos cynhyrchion HFSS yn y lleoliadau a

grybwyllir yn cyfrannu at bryniannau byrbwyll, yn enwedig pan fydd y cynhyrchion yn cael eu harddangos ar y ddesg dalu neu ar lefel llygaid. Awgrymwyd y byddai cyfyngu ar gynhyrchion HFSS rhag cael eu harddangos yn y lleoliadau hyn yn lleihau'r demtasiwn i wneud pryniannau diangen.

- 3.9 Pwysleisiodd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r mesur bwysigrwydd rhyddid dewis siopwyr. Roedd ymatebion eraill yn cwestiynu dichonoldeb y mesur, gan awgrymu y byddai'n anodd ei fesur a'i orfodi.
- 3.10 Roedd sefydliadau i raddau helaeth yn cefnogi'r mesur, gyda nifer yn nodi sut mae'r lleoliadau a grybwyllir yn y cwestiwn yn annog prynu cynhyrchion HFSS ac yn cyfrannu at ymddygiadau afiach. Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai gweithredu'r mesur hwn leihau temtasiwn y cwsmer i brynu cynhyrchion o'r fath.

Catgoreiddio cyfyngiadau bwyd gyda chynigion 1 a 2

Tabl 22 Ymatebion i C3

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Opsiwn A	40	6	32
Opsiwn B	50	10	42
Ddim yn siŵr/Arall	20	1	15
Gwag	12	4	8
Cyfanswm	122	21	100

- 3.11 Mae Tabl 22 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn 3 'Ar ba opsiwn dylen ni ganolbwyntio? Opsiwn A: Pethau sy'n effeithio fwyaf ar iechyd a phwysau plant? Opsiwn B: Pob Cynnyrch sy'n uchel mewn braster, siwgr, neu halen? Pam?' Cafodd y ddau opsiwn gryn dipyn o gefnogaeth gan unigolion a sefydliadau. Roedd y grŵp mwy (42 y cant) o'r ymatebwyr yn fwy o blaid opsiwn B gyda 32 y cant yn ffafrio opsiwn A. Mae'r rhestr o fwydydd sydd wedi'u cynnwys o dan opsiwn A ac opsiwn B wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

- 3.12 Roedd llawer o unigolion oedd o blaid opsiwn A yn dweud y dylai'r pwyslais fod ar y bwydydd mwyaf afiach. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylid ystyried gwerth maethol cyffredinol bwydydd, gan fod nifer o fwydydd iach yn naturiol uchel mewn siwgr a braster.
- 3.13 Awgrymodd unigolion oedd o blaid opsiwn B bod angen i'r mesur fod yn gyffredinol, gan bwysleisio pwysigrwydd targedu pob grŵp oedran a phawb mewn cymdeithas.
- 3.14 Roedd unigolion a ddewisodd 'arall' yn erbyn unrhyw gyfyngiad yn bennaf, gan ddadlau y byddai mesurau fel addysg neu gyfleoedd cynyddol ar gyfer gweithgarwch corfforol yn fwy effeithiol o ran lleihau gordewdra.
- 3.15 Dadleuodd sefydliadau o blaid canolbwyntio ar opsiwn A fod yr opsiwn hwn yn cynnwys yr holl brif feysydd sy'n peri pryder, ond mae angen i weithrediad y mesur hwn fod ochr yn ochr ag addysg ar fwyta'n iach ac ymarfer corff. Fodd bynnag, roedd rhai yn cwestiynu dichonoldeb opsiwn A, yn enwedig dosbarthu cynhyrchion sydd yn effeithio fwyaf ar iechyd a phwysau plant. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau bod cynnyrch ychwanegol fel pâst siocled yn cael eu hychwanegu at y rhestr.
- 3.16 Cyfeiriodd y rhai o blaid opsiwn B at ei ffocws ar y boblogaeth gyfan fel y rheswm, gan awgrymu ei fod yn fater sy'n effeithio ar bob oed. Credir hefyd fod y polisi yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os yw'r teulu cyfan yn cael eu hannog tuag at fwyd iach, nid y plant yn unig.

Cyfyngiadau cynnyrch a phrynu ar-lein

Tabl 23 Ymatebion i C4

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	64	13	54
Na	44	3	33
Ddim yn Siŵr	13	4	12
Gwag	1	1	1
Cyfanswm	122	21	100

- 3.17 Mae Tabl 23 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn 4 'Mae llawer o bobl yn prynu bwyd ar-lein ac mae'n cael ei ddanfôn. Os ydyn ni'n gwneud y newidiadau hyn, rydym ni am i'r gyfraith gynnwys siopa bwyd ar-lein. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da?' Roedd mwyafrif (54 y cant) o'r ymatebwyr o blaid gan gynnwys siopau ar-lein.
- 3.18 Pwysleisiodd unigolion o blaid cynnwys busnesau bwyd ar-lein yn y gyfraith y dylai pob busnes ddioddef yr un cyfyngiadau er mwyn sicrhau chwarae teg.
- 3.19 Roedd llawer o unigolion oedd yn gwrthwynebu cynnwys busnesau ar-lein yn y cyfyngiadau yn erbyn y cyfyngiadau yn gyffredinol, gan bwysleisio pwysigrwydd rhyddid dewis defnyddwyr. Fe wnaeth ymatebwyr eraill gwestiynu ymarferoldeb mesurau o'r fath.
- 3.20 Roedd y sefydliadau'n cynnig cefnogaeth sylweddol i'r mesur, gyda nifer yn nodi'r angen am ymyriadau ar-lein ac mewn siopau i ategu ei gilydd, gyda chysondeb rhyngddynt yn bwysig.
- 3.21 Roedd sefydliadau sy'n gwrthwynebu cynnwys hefyd yn erbyn y cyfyngiadau yn gyffredinol, gan ddadlau y dylai defnyddwyr allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, gan ychwanegu y dylai'r ffocws fod ar addysg nid cyfyngiadau.

Eithriadau ar gyfer cyfyngiadau hyrwyddo gwerth (cynnig 1)

Tabl 24 Ymatebion i C5

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	58	9	47
Na	42	7	34
Ddim yn Siŵr	18	5	16
Gwag	4		3
Cyfanswm	122	21	100

- 3.22 Mae Tabl 24 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 5 'Ni ddylai cyfyngiadau ar hyrwyddiadau effeithio: busnesau bach (o dan 50 o staff),

gostyngiadau pris agos i'r dyddiad defnyddio, cynhyrchion heb eu pecynnu ymlaen llaw. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da? Roedd cyfanswm o 47 y cant o'r ymatebwyr i gefnogi'r eithriad gyda 34 y cant yn erbyn.

- 3.23 Roedd llawer o unigolion o blaid eithrio busnesau bach, gan ddadlau y gallai'r cyfyngiadau arfaethedig effeithio'n anghymesur arnynt. Nododd unigolion fod gan fusnesau llai yn gyffredinol lai o adnoddau ac arian i addasu i'r newidiadau arfaethedig. Awgrymwyd y byddai caniatáu lleihau prisiau pan fo cynnyrch yn agos at y dyddiad defnyddio yn atal gwastraff bwyd.
- 3.24 Pwysleisiodd unigolion oedd yn gwrthwynebu eithrio busnesau bach y dylai pob busnes gael ei drin yr un fath ni waeth beth fo eu maint. Mynegodd yr ymatebwyr y gred bod cynhyrchion HFSS yn afiach ni waeth lle maen nhw'n cael eu prynu, ac mae eithriadau yn caniatáu creu mannau gwan.
- 3.25 Cyfeiriodd sefydliadau a fynegodd gefnogaeth i eithrio busnesau bach at y baich ychwanegol y gallai busnesau bach ei wynebu oherwydd costau cynyddol a llwyth gwaith. Awgrymodd nifer o sefydliadau y gallai'r cyfyngiadau effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach. Amlygwyd dibyniaeth rhai defnyddwyr ar ostyngiadau prisiau agos i'r dyddiad defnyddio mewn ymatebion a chynghorwyd y gallai cyfyngu ar hyrwyddiadau o'r fath effeithio'n andwyol ar unigolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.
- 3.26 Pwysleisiodd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu eithrio busnesau bach bwysigrwydd cysondeb, gan sicrhau triniaeth gyfartal i bob busnes o ran y cyfyngiadau arfaethedig. Awgrymodd sefydliadau y gallai eithriadau ganiatáu i fusnes ddod o hyd i fannau gwan i osgoi'r cyfyngiadau.

Eithriadau ar gyfer cyfyngiadau lleoliad hyrwyddo (cynnig 2)

Tabl 25 Ymatebion i C6

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	49	6	38
Na	53	9	43
Ddim yn Siŵr	17	5	15
Gwag	3	1	3
Cyfanswm	122	21	100

- 3.27 Mae'r Tabl 25 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 6: Ni ddylai deddfau am leoli bwydydd llai iach effeithio: busnesau bach (o dan 50 o staff), siopau sy'n llai na 2,000 troedfedd sgwâr (tua maint cwrt tennis), manwerthwyr arbenigol. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da? Rhannwyd yr ymatebwyr yn eithaf cyfartal rhwng cefnogi a gwrthwynebu eithriadau ar gyfer y mathau o leoliadau a grybwyllir uchod, gyda 38 y cant yn ateb, 'ie' a 43 y cant yn ateb 'na'.
- 3.28 Roedd ymatebwyr unigol oedd yn cytuno gyda'r eithriad arfaethedig yn dadlau bod cyfyngiadau ymarferol i gynllun a lleoliad cynhyrchion o fewn busnesau llai, gan dynnu sylw at heriau gweithredu posibl. Mynegodd unigolion bryder am y costau a'r canlyniadau ariannol y byddai busnesau llai yn eu hwynebu o ganlyniad i gyfyngiadau lleoli.
- 3.29 Roedd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r eithriad yn dadlau o blaid cysondeb ymhlith busnesau, gan bwysleisio nad yw'r bwydydd hyn yn afiach waeth ble roedden nhw'n gwerthu.
- 3.30 Roedd nifer o sefydliadau o blaid eithrio manwerthwyr arbenigol, gan nodi cyfyngiadau ymarferol deddfau lleoli fel rheswm. Amlygwyd yr heriau posibl y byddai busnesau sydd â llai o ofod sgwâr yn eu hwynebu wrth fodloni manyleb deddfau lleoli gan sefydliadau a oedd yn cefnogi'r eithriad. Roedd

nifer o ymatebion yn amlygu y gallai baich y mesurau effeithio ar fusnes llai i raddau mwy, yn enwedig y rhai sydd â llai o le.

- 3.31 Ailadroddodd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r eithriad yr angen am gysondeb ymhlith busnesau, gan awgrymu ymhellach y gellid manteisio ar eithriadau i greu mannau gwan ar gyfer sefydliadau mwy

Thema 2: Bwyta'n iachach Oddi Allan i'r Cartref

Cynnig 3 - Labelu calorïau gorfodol yn y man dewis yn y sector oddi allan i'r cartref

Tabl 26 Ymatebion i C7

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	50	8	41
Na	64	10	52
Ddim yn Siŵr	7	2	6
Gwag	1	1	1
Cyfanswm	122	21	100

- 3.32 Mae Tabl 26 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 7: Rydyn ni am gael labelu calorïau ar fwyd rydyn ni'n ei fwyta allan neu'n mynd ag ef adref. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da? Yn 52 y cant, roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r mesur awgrymedig hwn.
- 3.33 Roedd ymatebwyr unigol sy'n cefnogi'r gweithredu yn dadlau bod y ffaith bod mwy o wybodaeth ar gael yn cynyddu gallu defnyddwyr i wneud penderfyniadau addysgedig, gan awgrymu y gallai labeli ddylanwadu ar ddewisiadau iachach.
- 3.34 Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr unigol yn cefnogi gweithredu labelu calorïau. Mynegodd llawer o unigolion bryder y gallai ychwanegu gwybodaeth o'r fath i fwydlenni fod yn niweidiol i'r rhai sydd ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o brofi anhwylderau bwyta.

- 3.35 Fe wnaeth rhai sefydliadau gynnig cefnogaeth i weithredu labeli calorïau, gan ddweud y byddai'n gwneud pobl yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n ei fwyta ac yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Yn ogystal ag annog dewisiadau iachach, awgrymwyd yn yr ymatebion gan sefydliadau y byddai argaeledd gwybodaeth calorïau yn helpu i arwain arlwywyr i reoli meintiau dogn, a chostau ac o bosibl i leihau gwastraff.
- 3.36 Mynegodd y sefydliadau a wrthwynebodd y cynnig hwn bryderon ynghylch yr effaith y gallai gael ar unigolion sydd ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o brofi anhwylderau bwyta. Awgrymwyd hefyd nad yw calorïau yn arwydd da o ba mor iach yw pryd o fwyd, a byddai gwybodaeth faethol arall yn fwy defnyddiol.

Cyfyngu labeli egni i galorïau (Kcals)

Tabl 27 Ymatebion i C8

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	75	11	60
Na	38	7	31
Ddim yn Siŵr	5	2	5
Gwag	4	1	3
Cyfanswm	122	21	100

- 3.37 Tabl 27 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 8 Dylai gwybodaeth am galorïau: fod yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddi, defnyddio calorïau (Kcal), gan mai dyna mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ddeall, cyfeirio at y 'swm dyddiol a argymhellir' i helpu pobl i wybod faint i'w fwyta ar draws y dydd. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da? Cytunodd mwyafrif sylweddol (60 y cant) o'r ymatebwyr gyda'r dull arfaethedig o arddangos gwybodaeth calorïau, gyda 31 y cant yn gwrthwynebu.
- 3.38 Roedd y rhan fwyaf o unigolion yn cefnogi'r dull arfaethedig, gan bwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth galorïau yn glir, a hawdd ei deall yng nghyd-destun y swm dyddiol a argymhellir.

- 3.39 Roedd llawer o unigolion a oedd yn gwrthwynebu'r dull arfaethedig yn erbyn labelu calorïau gorfodol ac phwysleisiwyd yr effaith a allai fod yn niweidiol y gallai ychwanegu labeli kalori ei chael ar y rhai sydd ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o gael anhwylderau bwyta. Roedd ymatebwyr eraill yn cwestiynu cywirdeb a pherthnasedd y ffigyrau a ddefnyddir ar gyfer y swm dyddiol a argymhellir o galorïau, gan nodi bod y calorïau mae pob unigolyn eu hangen yn amrywio'n sylweddol.
- 3.40 Roedd nifer o sefydliadau o blaid y dull arfaethedig, gan ddadlau ei fod yn helpu pobl gyda'r broses o wneud penderfyniadau a bod ganddo'r potensial i annog dewisiadau mwy iachus. Mynegodd sefydliadau'r angen i labelu calorïau fod yn syml ac yn hawdd eu deall, awgrymwyd y dylid arddangos gwerthoedd bob amser fel y swm ar gyfer y cynnyrch cyfan.
- 3.41 Roedd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r dull arfaethedig yn dadlau nad yw gwerthoedd calorïau yn unig yn llywio dewisiadau iach. Cafodd y defnydd o swm dyddiol a argymhellir ei gwestiynu ymhellach gan sefydliadau yn eu hymatebion, ac amlygodd hyn y ffaith bod y gwerth hwn ond yn briodol ar gyfer oedolyn "cyffredin".

Labelu calorïau a gwerthiant ar-lein.

Tabl 28 Ymatebion i C9

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	64	14	55
Na	46	6	36
Ddim yn Siŵr	9		6
Gwag	3	1	3
Cyfanswm	122	21	100

- 3.42 Mae Tabl 28 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn 9. 'A ddylai'r rheolau hyn gynnwys bargeinion bwyd a diod ar-lein hefyd?' Roedd 55 y cant o'r ymatebwyr o blaid cynnwys bargeinion bwyd a diod ar-lein yn y cyfyngiadau.

- 3.43 Roedd dau draean o unigolion yn gefnogol i gynnwys bargeinion bwyd a diod ar-lein, gyda nifer yn dadlau ei bod hi'n bwysig cael cysondeb rhwng busnesau ar-lein a siopau, er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn gyfartal. Tynnodd unigolion sylw at y ffaith y byddai cynnwys labelu calorïau ar-lein yn helpu'r boblogaeth ymhellach i ddeall eu cymeriant calorïau.
- 3.44 Roedd llawer o unigolion oedd yn gwrthwynebu'r cynnwys yn erbyn labelu calorïau gorfodol ar gyfer unrhyw leoliad y tu allan i'r cartref, ac fe fynegodd bryder ynghylch y niwed posib y gallai'r cynnig orfod i unigolion sydd ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o gael eu bwyta. Roedd eraill yn cwestiynu dichonoldeb cynnwys busnesau ar-lein, yn enwedig sut y byddai'n cael ei orfodi.
- 3.45 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cefnogi'r rheolau i gynnwys bargeinion bwyd a diod ar-lein. Pwysleisiodd nifer yr angen am bolisi cyson ymhlith busnesau ar-lein ac mewn siopau. Awgrymwyd y byddai eithrio busnesau ar-lein yn arwain at greu mannau gwan.

Eithriadau labelu calorïau ar fwydlenni plant

Tabl 29 Ymatebion i C10

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	74	12	60
Na	38	6	31
Ddim yn Siŵr	9	1	7
Gwag	1	2	2
Cyfanswm	122	21	100

- 3.46 Mae Tabl 29 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 10 'A ddylai bwydlenni plant fod yn rhydd o orfod dangos calorïau?' Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebion (60 y cant) i'r cwestiwn hwn yn cefnogi bwydlenni plant yn rhydd o orfod dangos calorïau.
- 3.47 Yn gyffredinol, roedd unigolion yn yr ymgynghoriad o blaid eithrio bwydlenni plant rhag gorfod arddangos gwerthoedd calorïau. Roedd llawer o unigolion

yn dadlau na ddylai plant fod yn agored i wybodaeth calorïau, gan fynegi pryder bod gwneud hynny'n cynyddu'r risg y bydd plant yn datblygu anhwylderau bwyta.

- 3.48 Roedd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r eithriad yn dadlau y byddai gwybodaeth calorïau yn caniatáu i blant a'u rhieni wneud penderfyniadau gwybodus am beth i'w fwyta. Pwysleisiodd sawl unigolyn bwysigrwydd addysgu plant ar galorïau a bwyta'n iach o oedran ifanc.
- 3.49 Yn debyg i unigolion, roedd sefydliadau i raddau helaeth o blaid eithrio bwydlenni plant rhag gorfod arddangos gwerthoedd calorïau. Roedd nifer yn dadlau na ddylai plant fod yn agored i wybodaeth calorïau, gan fynegi pryder y gallai gyfrannu at ymddygiadau bwyta afiach neu anhwylderau bwyta. Awgrymodd sefydliadau y dylai'r pwyslais fod ar arlwywyr i gynnig dewisiadau iachach ar fwydlenni plant neu gyflwyno uchafswm terfyn kalori ynghlwm â phrydau plant.
- 3.50 Roedd sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r eithriad yn dadlau bod gwybodaeth calorïau yn rhan o addysgu plant ar ddewisiadau bwyta'n iachach, gan ddweud bod addysg a lleihau gordewdra plant yn mynd law yn llaw.

Bwydlenni heb galorïau ar gael ar gais a lliniaru ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta.

Tabl 30 Ymatebion i C11

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	83	13	67
Na	31	6	26
Ddim yn Siŵr	6	1	5
Gwag	2	1	2
Cyfanswm	122	21	100

- 3.51 Mae Tabl 30 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 11: A ddylai busnesau sicrhau fod ganddynt fwydlenni heb labelu calorïau ar gael?

Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr (67 y cant) yn cefnogi'r gofyniad i fusnesau hefyd gynnig bwydlenni heb labelu calorïau.

- 3.52 Roedd mwyafrif sylweddol o unigolion yn credu y dylai bwydlenni heb labelu calorïau fod ar gael. Pwysleisiodd llawer o unigolion bwysigrwydd y dull hwn i'r rhai sydd ag anhwylderau bwyta, neu mewn perygl o brofi anhwylderau bwyta. Awgrymodd unigolion, drwy sicrhau bod bwydlenni heb labelu calorïau ar gael, bod defnyddwyr yn cael rhyddid dewis.
- 3.53 Roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r lledfiad yn dadlau y byddai'r gofyniad o gael dwy fwydlen yn dod ar gost i fusnesau. Awgrymwyd bod presenoldeb bwydlenni heb labelu calorïau yn creu man gwan posibl i fusnesau fanteisio arno.
- 3.54 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau o blaid y dull, gan bwysleisio y gall labelu calorïau fod yn niweidiol i lawer o bobl, yn enwedig y rhai sydd ag anhwylderau bwyta neu mewn perygl o brofi anhwylderau bwyta. Roedd sefydliadau'n dadlau bod y lledfiad hwn yn rhoi rhyddid dewis i gwsmeriaid.
- 3.55 Roedd sawl sefydliad yn gwrthwynebu'r dull, gan nodi'r baich cynyddol mae busnesau yn ei wynebu. Mynegodd eraill bwysigrwydd cael cysondeb yn y polisi.

Cynnig 4 - Gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: ail-lenwi am ddim

Tabl 31 Ymatebion i C12

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	70	16	60
Na	47	2	34
Ddim yn Siŵr	4	2	4
Gwag	1	1	1
Cyfanswm	122	21	100

- 3.56 Mae tabl 31 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 12 'Rydym ni am roi'r gorau i ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim. Ydych chi'n meddwl fod

hyn yn syniad da?' Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (60 y cant) yn cefnogi'r cynnig hwn.

- 3.57 Yn gyffredinol, roedd unigolion yn cefnogi cyflwyno mesurau sy'n cyfyngu ar ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim. Roedden nhw'n dadlau bod ail-lenwi rhad ac am ddim yn annog gor-yfed y diodydd hyn, tra'n pwysleisio'r canlyniadau iechyd negyddol sy'n gysylltiedig â nhw. Awgrymodd ymatebwyr y dylai ail-lenwi dewisiadau eraill di-siwgr neu ddŵr am ddim fod ar gael.
- 3.58 Roedd ymatebwyr unigol oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn aml yn cyfeirio at ryddid dewis fel rheswm. Mynegodd eraill bryder y byddai cwsmeriaid yn wynebu costau cynyddol, a allai effeithio'n anghymesur ar y rhai o swyddi economaidd-gymdeithasol is.
- 3.59 Yn bennaf, cefnogodd sefydliadau gyflwyno mesurau sy'n cyfyngu ar ail-lenwi diodydd meddal siwgrog am ddim, gan dynnu sylw at beryglon annog gor-yfed y rhain. Roedd un sefydliad, fodd bynnag, yn teimlo y gallai gwaharddiad effeithio ar fusnesau lletygarwch yn andwyol.

Cynnig 4 - Gosod cyfyngiadau ar weini diodydd meddal siwgrog: maint dognau mwy

Tabl 32 Ymatebion i C13

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	59	12	50
Na	49	5	38
Ddim yn Siŵr	12	3	10
Gwag	2	1	2
Cyfanswm	122	21	100

- 3.60 Mae tabl 32 yn crynhoi'r ymateb i gwestiwn 13 'A ddylen ni wahardd dognau mwy (dros un peint neu 570ml) o ddiodydd meddal siwgrog?' Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn gyda 50 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno.

- 3.61 Roedd unigolion o blaid y gwaharddiad yn poeni am faint o siwgr sydd mewn dogn mawr ac am feintiau dogn mwy yn gyffredinol, yn enwedig yng nghydestun diabetes a materion iechyd eraill.
- 3.62 Cyfeiriodd unigolion oedd yn erbyn y gwaharddiad at yr angen am ryddid dewis ac effaith costau cynyddol ar ddefnyddwyr.
- 3.63 Roedd sefydliadau oedd yn ffafrio gwaharddiad yn dilyn themâu tebyg i unigolion, gan gyfeirio at lefelau gordewdra ac iechyd deintyddol gwael yng Nghymru.
- 3.64 Roedd sefydliadau yn erbyn y cynnig yn canolbwyntio ar ryddid dewis.

Eithriadau cyfyngiadau labelu calorïau a diod meddal

Tabl 33 Ymatebion i C14

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	37	10	33
Na	60	6	46
Ddim yn Siŵr	20	4	17
Gwag	5	1	4
Cyfanswm	122	21	100

- 3.65 Mae Tabl 33 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 14 'Bydd y rheolau newydd hyn yn effeithio ar bob bwyty, caffi, a busnes tecawê ni waeth pa faint ydyn nhw. Ni fydd y rheolau hyn yn effeithio ar elusennau neu ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal i godi arian neu lefydd fel ysgolion neu gartrefi gofal lle mae rheolau mewn grym yn barod. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da?' Roedd y cydbwysedd barn yn erbyn y cynnig hwn (46 y cant o'r ymatebwyr).
- 3.66 Lle'r oedd unigolion o blaid yr eithriadau, roedd ar sail fod ysgolion a chartrefi gofal eisoes yn gweithio i wella bwyta'n iach. Ni ystyriwyd fod cacennau cartref a werthwyd i godi arian i elusen yn cyfrannu at ordewdra fel dantaith achlysurol.

- 3.67 Roedd unigolion oedd yn gwrthwynebu'r eithriad eisiau gweld cysondeb ar draws pob lleoliad. Er enghraifft, byddai'r eithriad yn golygu y gallai ysgolion werthu cacennau i godi arian i elusen, tra dylen nhw fod yn gosod esiampl dda drwy'r amser.

Eithriadau cynnyrch bwyd a diod labelu calorïau

Tabl 34 Ymatebion i C15

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	73	8	57
Na	30	3	23
Ddim yn Siŵr	14	8	15
Gwag	5	2	5
Cyfanswm	122	21	100

- 3.68 Tabl 34 yn crynhoi'r ymatebion meintiol i gwestiwn 15. 'Mae yna rai eitemau bwydlen na fyddem yn disgwyl iddyn nhw gael eu labelu. Pethau fel bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw sydd eisoes â'r calorïau wedi'u hargraffu arno, saws tomato, mayonnaise a phethau eraill mae pobl yn ychwanegu at eu bwyd, ffrwythau a llysiau ffres. Ydych chi'n meddwl fod hyn yn syniad da?' Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (57 y cant) yn cefnogi'r eithriad hwn.
- 3.69 Roedd unigolion oedd yn cefnogi'r eithriadau yn gwneud hynny am amryw o resymau; roedd rhai yn gwrthwynebu labelu calorïau yn llwyr, ac roedd eraill yn meddwl y byddai labelu ar ffrwythau a llysiau ffres yn rhy ymwithiol.
- 3.70 Roedd yr unigolion hynny oedd yn gwrthwynebu'r eithriadau eisiau cysondeb a rhai yn tynnu sylw at y ffaith bod mayonnaise, sawsiau a hyd yn oed llysiau yn gallu cynnwys lefelau sylweddol o siwgr.
- 3.71 Roedd sefydliadau oedd yn cytuno gyda'r eithriadau am sicrhau bod rheoliadau'n gymesur ac yn osgoi biwrocratiaeth ddiangen.
- 3.72 Roedd y nifer fechan o sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r eithriadau yn credu y dylid labelu'r holl fwyd sydd â gwerthoedd caloriffig uchel.

Thema 3: Amgylcheddau Bwyd Lleol Iachach

Cynnig 5 – Cefnogi gweithredu'n lleol – pa offer a chymorth fydd eu hangen i gefnogi newid

- 3.73 Roedd Cwestiwn 16 yn gofyn: 'Rydym am gefnogi gweithredu lleol i greu cymunedau lle mai'r dewis iach yw'r dewis hawdd. Pa gefnogaeth a phethau gallen ni eu rhoi ar waith fel bod gennych chi opsiynau mwy iach yn eich ardaloedd lleol?'.
3.74 Awgrymodd unigolion weithgareddau fel dosbarthiadau addysg bwyd a choginio, mwy o fynediad at gyfleusterau ymarfer corff, cyfyngiadau cynllunio ar siopau tecawê sy'n gwerthu bwyd HFSS a chamau gweithredu i roi pwysau ar wneuthurwyr bwyd.
3.75 Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnwys cefnogaeth i dyfu bwyd, dosbarthiadau ffitrwydd, caffis cymunedol iach ac arlwyio gwell mewn ysgolion.

Cynnig 6: Cyfyngu ar siopau tecawê bwyd poeth – gan ystyried terfynau dirlawnder, pwerau trwyddedu ac amgylcheddau presennol o amgylch ysgolion a cholegau

Tabl 35 Ymatebion i C17

	Unigolyn	Sefydliad	% o'r ymatebion
Ydw	73	8	57
Na	30	3	23
Ddim yn Siŵr	14	8	15
Gwag	5	2	5
Cyfanswm	122	21	100

- 3.76 Mae Tabl 35 yn crynhoi'r ymatebion i gwestiwn 17: 'Rydyn ni eisiau cyfyngu ar nifer y siopau tecawê mewn trefi ac yn agos at ysgolion a cholegau. A ddylen ni edrych ar newid sut mae penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud i gyfyngu ar y nifer o siopau tecawê mewn cymunedau ac yn agos

at ysgolion uwchradd a cholegau? Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (57 y cant) yn cefnogi'r cynnig hwn.

- 3.77 Roedd unigolion oedd yn cefnogi'r cynnig yn cyfeirio at faterion fel clystyru siopau tecawê ger ysgolion a cholegau a sut mae hyn yn gwneud bwyta tecawê yn rhy gyfleus, ac effaith bwyta bwyd cyflym.
- 3.78 Awgrymodd unigolion a oedd yn erbyn y cynnig bod siopau tecawê yn darparu gwasanaeth defnyddiol i unigolion incwm is, a dylid cael dewis rhydd. Roedden nhw'n awgrymu y byddai addysg bwyd yn opsiwn arall gwell.
- 3.79 Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau o blaid y cynnig fel buddsoddiad hirdymor pwysig. Fe wnaethon nhw ddweud bod angen gweithredu o fewn ysgolion hefyd. Er enghraifft, mae gan rai ysgolion siopau sy'n stocio bwydydd HFSS, ac mae pris prydau ysgol yn aml yn gwneud bwyd tecawê yn ddeniadol.
- 3.80 Roedd y nifer fechan o sefydliadau oedd yn gwrthwynebu'r syniad yn cyfeirio at deimladau gwrth-fusnes a'r ffaith bod ysgolion yn bennaf yn defnyddio pasys digidol nawr yn lle arian parod, sy'n cyfyngu ar nifer y plant sy'n chwilio am fwyd ychwanegol allan o'r ysgol.

Mesurau posibl eraill ac effeithiau ehangach

- 3.81 Gofynnodd y cwestiwn olaf 'Beth arall fyddai'n helpu i wneud y dewis bwyd iach yn ddewis hawdd yn eich bywyd chi?'
- 3.82 Roedd ymatebion i'r cwestiwn olaf hwn gan unigolion yn cynnwys addysg ynghylch bwyta'n iach, datblygu sgiliau coginio, gwell mynediad at fwyd iach a chefnogaeth i siopau ffrwythau a llysiau ffres.
- 3.83 Adleisiodd sefydliadau lawer o'r sylwadau hyn, gan ychwanegu mewn cefnogaeth ar gyfer tyfwyr cynyddol, marchnata a hyrwyddo manteision bwyta'n iach a chymorth grant ar gyfer arddangosiadau coginio.

Atodiad A: Cynhyrchion posibl sy'n cael eu cwmpasu gan gynigion 1 a 2

Mae'r ddau opsiwn yn nodi cynhyrchion sy'n cael eu dosbarthu fel braster uchel, siwgr neu halen yn ôl y Model Proffilio Maetholion.

Mae 'Opsiwn A' yn rhestru cynnyrch sydd o'r pryder mwyaf o ran gordewdra plant.

Mae 'Opsiwn B' yn cynnwys eitemau Opsiwn A a chynhyrchion ychwanegol sy'n cael eu cwmpasu gan y Rhaglen Lleihau Siwgr, Rhaglen Lleihau Calori ac Ardoll

Diwydiant Diod Feddal.

Opsiwn A – Categorïau sydd yn peri'r pryder mwyaf am ordewdra plant

- Diodydd meddal
- Melysion siocled
- Melysion siwgr
- Cacennau
- Hufen iâ
- Nwyddau bore
- Pwdinau a melysfwydydd llaeth
- Bisgedi melys
- Grawnfwydydd brecwast
- Iogyrtau
- Diodydd llaeth gyda siwgr ychwanegol
- Diodydd sudd gyda siwgr ychwanegol
- Pitsa
- Creision a byrbrydau sawrus
- Prydau parod a chanolfannau prydau bwyd gan gynnwys cynnyrch bara a chynnyrch mewn cytew
- Sglodion a chynnyrch tatws

Opsiwn B – Yr holl gynhyrchion sy'n cael eu dal gan y rhaglenni.

Yr holl gynhyrchion yn Opsiwn A ac yn ychwanegol:

- Bara garlleg
- Pasteiod a quiches
- Bara gydag ychwanegiadau
- Bisgedi sawrus, craceri a bara crimp
- Sawsiau a phasta ceginio
- Sawsiau a dresins bwrdd
- Cynhyrchion cig wedi'i brosesu
- Pasta/reis/nwdls gyda chynhwysion a blasau ychwanegol
- Dips wedi'u paratoi a salad cyfansawdd i gyd-fynd â phrydau
- Cynhyrchion/seigiau wy
- Taeniadau melys